



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac
arweinyddiaeth

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017

Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Cynulleidfa	Ymarferwyr, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, cyrff llywodraethu ysgolion, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM, undebau'r gweithlu, Cyngor y Gweithlu Addysg, sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon, sefydliadau cenedlaethol ac elusennau.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a gynhaliwyd rhwng 2 Mawrth a 4 Mai 2017.
Camau i'w cymryd	Er gwybodaeth yn unig
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at: Y Tîm Fframweithiau Proffesiynol a Safonau Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Adeiladau'r Goron Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: professionalstandardsreview@cymru.gsi.gov.uk
Copiâu ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn ymgyngoriadau.llyw.cymru/
Dogfennau cysylltiedig	<i>Symud Cymru Ymlaen 2016–2021</i> (2016) llyw.cymru/about/programme-for-government/?lang=cy http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

Cynnwys

Cefndir	2
Ymatebion i'r ymgynghoriad	3
Camau nesaf	34
Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr	35
Atodiad 2: Crynodeb o'r diwygiadau	36

Cefndir

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (Llywodraeth Cymru, 2016) yn amlinellu rhaglen y llywodraeth ar gyfer sbarduno gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan sicrhau Cymru ddiogel sy'n ffynnu, Cymru iach ac egnïol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig. Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer addysg yw cymell, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysgu ac arweinyddiaeth fel ein bod yn codi safonau drwyddi draw, a datblygu hyfforddiant a chyfleoedd i athrawon, arweinwyr a'r gweithlu addysg ehangach.

Mae gan safonau proffesiynol gyfraniad pwysig i'w wneud i gyflawni'r flaenoriaeth hon drwy ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu arferion rhagorol a thrwy gefnogi twf proffesiynol. Mae llawer wedi newid ym maes addysg ers cyflwyno'r safonau presennol ac mae nifer o adolygiadau annibynnol o system addysg Cymru wedi cynnwys argymhellion ynghylch safonau proffesiynol.

Mae'r safonau newydd yn hollbwysig i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru ac maent wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r diwygiadau mewn addysg gychwynnol i athrawon, cwricwlwm newydd, fframwaith cymwysterau sy'n esblygu a lansio'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ar 2 Mawrth. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am naw wythnos (saith wythnos yn ystod y tymor) a daeth i ben ar 4 Mai. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.

Mae'r model newydd o safonau proffesiynol wedi'i lunio gyda'r proffesiwn, ar gyfer y proffesiwn. Mae'n benllanw gwaith helaeth gydag ysgolion, sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bu athrawon ac arweinwyr yn weithgar wrth ddatblygu, mireinio a phrofi'r safonau drafft. Yn ogystal, mae'r safonau drafft wedi cael eu treialu gan y proffesiwn. Mae ysgolion o'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi a sefydliadau addysg gychwynnol i athrawon wedi gweithio gyda'r safonau drafft a mynd ar drywydd llinellau ymholi strwythuredig er mwyn gallu mireinio rhagor ar y safonau ac ystyried pa ddeunyddiau y gallai fod eu hangen i gynorthwyo athrawon i ddefnyddio'r safonau'n effeithiol ym mhob rhan o'u gyrfa.

Mae'r model drafft wedi cael ei rannu'n helaeth mewn digwyddiadau ledled Cymru hefyd. Yn eu plith roedd gweithdai a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ymhob consortiwm, a lwyddodd i ddenu tua 200 o athrawon ac arweinwyr. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd pellach i gasglu adborth ar y cynigion gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion. Roedd yr adborth hwn yn gefnogol ar y cyfan ac mae wedi bod yn werthfawr o ran helpu i asesu gwerth posibl y safonau newydd i'r proffesiwn addysgu. Nid yw wedi cael ei gynnwys yn y crynodeb hwn o ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Roed rhai sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad ac er y gwnaed pob ymdrech i gysylltu'r ymatebion hyn â themâu allweddol yr ymgynghoriad, nid oedd hyn yn bosibl ym mhob achos.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 96 ymateb. Cafodd 90 o'r rhain eu cwblhau ar y templed ymateb ffurfiol a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ar-lein neu e-bost, a chafwyd 6 neges e-bost arall yn mynegi safbwyntiau. O ganlyniad, nid yw pob ymatebwr wedi ateb pob un o'r cwestiynau. Fodd bynnag, mae ymateb naratif wedi'i gynnwys yn llawn yn y dadansoddiad cryno hwn drwy glustnodi sylwadau i'r adran gwestiynau fwyaf priodol.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn atodiad 1. Nid yw ymatebwyr a ofynnodd am gael bod yn ddienw wedi'u rhestru.

Dyma ddadansoddiad o ymatebion yn ôl sector:

	Nifer	%
Ysgolion ac ymarferwyr	35	39
Undebau'r gweithlu	9	10
Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol	7	8
Awdurdodau lleol a chonsortia	19	21
Darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon	5	6
Arall	15	17

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1- Ydych chi'n cytuno y dylai'r safonau proffesiynol newydd arfaethedig adlewyrchu'r weledigaeth hon?

Cytuno	81%
Anghytuno	6%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13%
Heb ateb	0%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r safonau newydd arfaethedig adlewyrchu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Cafwyd cefnogaeth eang i'r syniad o roi lle canolog i'r dysgwr ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol.

Cafwyd cefnogaeth i'r syniad o ymarferwyr fel gweithwyr proffesiynol sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol gydol eu gyrfa, yn ogystal ag arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y safonau'n ddigon uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â diwygiadau eraill yn y maes addysg.

Cyfeiriodd rhai ymatebion at bwysigrwydd gweithredu'r safonau er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Dywedodd ambell ymatebwr y byddai llwythi gwaith yn rhwystro i wireddu'r weledigaeth.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Nid yw barnu addysgu ac arweinyddiaeth yn erbyn yr "hen" safonau yn ddim mwy nag ymarferion ticio bocsys erbyn hyn, ac ychydig iawn yn y proffesiwn sy'n elwa arnynt.

Rwy'n cytuno ag ysbryd y weledigaeth ond rwy'n poeni ei bod yn golygu bod rhaid i athrawon ystafell dosbarth ysgwydd cyfrifoldebau helaeth fel datblygu'r cwricwlwm – nid yw hyn yn ymarferol gyda thua 2 awr yr wythnos pan nad ydynt yn addysgu.

Undebau'r gweithlu

Rydym ni'n sicr yn parhau i gefnogi'r syniad o gysoni safonau proffesiynol, a phob polisi addysg arall, er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon.

Credwn fod yn rhaid i'r datblygiadau newydd yma ymrafael â lleihau baich biwrocrataidd athrawon ac arweinwyr.

Rydym ni'n poeni'n arbennig am y ffaith na chafodd yr ymgynghoriad ffurfiol ei gynnal yn gynharach yn y broses. Mae hyn yn golygu bod cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon yn defnyddio'r safonau i gynllunio cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi. Mae hyn yn gwbl amhriodol.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae bod yn athro sy'n gallu newid drwy'r amser i weddu i anghenion y plant sy'n cael eu haddysgu yn bwysig iawn.

Mae rhan ganolog y dysgwr o ran y safonau proffesiynol arfaethedig newydd yn cydweddu â gweledigaeth Donaldson a nodau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal ag yn hyrwyddo yn benodol annibyniaeth dysgwyr

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Hwyrach y byddai'n dda o beth ystyried a oes angen gweledigaeth ar wahân ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae'n amserol adolygu'r safonau ac adlewyrchu'r weledigaeth gan roi lle canolog i addysgu da ac arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel. Er mwyn newid y system, bydd angen newid ffocws y safonau proffesiynol ac mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar ansawdd addysgu ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth yn ein hysgolion.

Awdurdod lleol/consortia

Cytunwn fod arweinyddiaeth yn rhan hollbwysig o'r weledigaeth ar bob lefel ac fel gweithwyr proffesiynol yng ngwir ystyr y gair, dylai ymarferwyr ymdrechu bob amser i wella a thyfu.

Cytuno mewn egwyddor gyda'r weledigaeth ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth... pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn sylfaenol. Bydd athrawon yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol yn cael eu croesawu gan y proffesiwn ac mae ffydd yn eu proffesiynoldeb yn hollbwysig.

Arall

Mae'r newid hwn yn un sydd ei angen ac sydd wedi ei amseru'n dda.

Mae'r Cyngor Astudiaethau Maes yn croesawu'r safonau newydd fel ffordd synhwyrol o ddatblygu DPP a chefnogi dilyniant proffesiynol gydol gyrfa athro.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol i sicrhau cysondeb rhwng y safonau proffesiynol a diwygiadau addysg eraill. Mae'r cyflwyniad i'r ddogfen hon yn nodi'r cyfnod estynedig o ymgynghori anffurfiol a chydweithio a gynhaliwyd cyn yr ymgynghoriad ffurfiol hwn.

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau nad yw'r safonau newydd yn cynyddu'r llwyth gwaith. Mae'r safonau dan sylw yn yr ymgynghoriad yn llai mewn nifer ar gyfer athrawon unigol na'r safonau presennol. Bydd y ffordd fydd y safonau'n cael eu cyrchu drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn galluogi ymarferwyr i ddewis sut i'w defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Nid oes gofyniad ar gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon ddefnyddio'r safonau newydd o fis Medi ymlaen. Trafodir hyn yn fanylach yn ein hymateb i Gwestiwn 9.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion a'r dibenion hyn yn briodol i'r agenda addysg newydd yng Nghymru?

Cytuno	78%
Anghytuno	10%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	10%
Heb ateb	2%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod egwyddorion a dibenion y safonau newydd yn briodol i'r agenda addysg newydd yng Nghymru. Croesawyd mwy o ymreolaeth i ymarferwyr a'r farn gyffredinol oedd bod yr egwyddorion a'r dibenion yn gyson â datblygiadau eraill ym mholisiau addysg, gyda chysylltiadau clir â diwygiadau mewn addysg gychwynnol i athrawon a'r cwricwlwm.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod pethau wedi'u hepgor, er enghraifft, o ran meysydd diogelu a gwerthoedd ac agweddau personol craidd.

Roedd un ymatebwr o'r farn mai'r proffesiwn ddylai fod yn berchen ar y safonau a'u datblygu a'u hyrwyddo, drwy gael ei gorff proffesiynol i weithio gydag unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid. Mynegodd ymatebwr arall bryder y gallai'r berthynas rhwng y safonau a'r cylch rheoli perfformiad olygu bod y safonau'n cael eu defnyddio fel 'rhestr dicio'.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Byddai dull colegol o ddysgu sy'n annog ystafelloedd dosbarth llawn dychymyg sy'n addysgu ac yn ehangu sgiliau yn ysbrydoli yng ngwir ystyr y gair. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw'r rhyddid a'r amser i'r dull hwn ddatblygu, cryfhau ac ennill ei blwyf. Byddai'r posibilrwydd o arolygiad ESTYN llawdrwm yn mygu arbrofi.

Mae'r agenda newydd yng Nghymru yn cynnwys llai o ragnodi o'r brig i lawr ynghylch sut gallai athrawon addysgu - dylai hyn roi rhyddid i athrawon ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol eu hunain yn hytrach na gorfod dilyn Estyn neu SLT.

Ni allwch chi ddisgwyl i athrawon wneud gwaith ymchwil a datblygu eu hunain.

Undebau'r gweithlu

Mae'n galonogol bod y safonau'n osgoi dull gorsymyl ac yn adlewyrchu natur gymhleth rôl athrawon ac arweinwyr ysgolion.

Ni fydd y safonau newydd yn taro deuddeg i athrawon ac ni fyddant yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd at godi safonau'r proffesiwn.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae'r egwyddorion hyn yn gadarn ond eu gweithrediad gan lywodraeth a gweithwyr addysg proffesiynol ar bob lefel fydd yn penderfynu a ydynt wir yn cefnogi'r agenda honno.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Gyda'r newidiadau sylweddol a wynebwn ym maes addysg, mae'r cyfleoedd proffesiynol a'r ymdeimlad o berchnogaeth o "ddiben moesol" cyffredinol i'w croesawu.

Mae gwerth mewn ystyried symleiddio geiriad yr egwyddorion a'r dibenion fel bod ymarferwyr, ysgolion ac eraill yn gallu eu deall yn hawdd.

Awdurdod lleol a chonsortia

Mae'r rhain yn fanwl ac yn berthnasol – pe baem ni i gyd yn cadw at yr egwyddorion hyn, byddai ein hathrawon wedi'u hyfforddi'n well a byddai ganddynt fwy o allu i gefnogi pob dysgwr waeth beth fo'i anghenion a'i gefndir

Mae'r egwyddorion hyn yn gydnaws â Dyfodol Disglair ac felly'n cefnogi'r agenda addysg yn dda. Bydd angen i ni wneud yn siŵr bod yr amcanion hyn yn cael eu rhannu'n dda a bod pob aelod o'r gymuned addysg yn eu deall.

Mae'r egwyddorion yn cyd-fynd â datblygiadau eraill yn y proffesiwn a dylent adlewyrchu ei gilydd.

Arall

Nid yw'r cwricwlwm newydd, yn fy marn bersonol i ac yn fy mhwnc i, yn gyson â'r weledigaeth hon - yn hytrach mae'n ddull dogmataidd a diangen i gadw PISA a'r OECD yn hapus.

Pwysoli'r safonau ar addysgeg yw'r union beth rydym ni ei angen, yn achos addysgu ac arweinyddiaeth fel ei gilydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd yr egwyddorion a'r dibenion yn aros fel ag y maent. Fodd bynnag, byddant yn cael eu hadolygu bob hyn a hyn i sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd. Bydd swyddogion yn parhau i gysylltu â chydweithwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau lle mae cysylltiadau â pholisïau penodol, y rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod prosesau ar waith i gynorthwyo ymarferwyr i enghreifftio'r egwyddorion a'r dibenion yn eu hymarfer.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum dimensiwn a'u helfennau yn disgrifio cydamcan priodol ar gyfer pob athro ac arweinydd ysgol?

Cytuno	73%
Anghytuno	12%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13%
Heb ateb	1%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y gwerthoedd a'r ymagweddau, y pum dimensiwn a'u helfennau yn disgrifio diben cyffredin priodol ar gyfer pob athro ac arweinydd ysgol. Mewn rhai achosion, roedd awgrymiadau neu ddatganiadau amodol yn dod law yn llaw â'r cytundeb. Er enghraifft, awgrymodd un ymateb y dylai bod 6^{ed} dimensiwn yn ymwneud ag iechyd, lles ac amgylchedd ymarferwyr. Roedd eraill yn cytuno bod y strwythur a'r cynnwys yn briodol ond roeddent yn mynegi pryder ynglŷn â'r amser sydd ar gael i'w roi ar waith. Roedd rhai ymatebwyr yn cynnwys ceisiadau i ddarparu rhagor o ganllawiau neu enghreifftiau.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch cymhlethdod naill ai strwythur neu gynnwys y safonau. Nododd rhai ymatebion fylchau ymddangosiadol yn y model mewn perthynas ag, er enghraifft, y set benodol o rinweddau personol sydd eu hangen ar athro, cyfeiriadau at waith cynllunio/paratoi a phwyslais at bwysigrwydd gwybodaeth am y pwnc, yn eu tro.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Byddwn angen mwy o fanylion am elfennau'r pum dimensiwn ond mewn egwyddor maent yn adlewyrchu elfennau allweddol dysgu proffesiynol ac arfer da.

32 safon yn hytrach na 55 – mwy hylaw – llai o ailadrodd.

Dydw i ddim am weld system or-gymhleth (dim angen mwy na phump [dimensiwn]).

Addysgeg yw'r craidd mewn gwirionedd ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei grynhoi fel mai dim ond traean o fod yn athro yw addysgeg.

Rwy'n credu bod y pum dimensiwn yn gwbl briodol i'r proffesiwn addysgu a chroesewir y ffocws ar addysgeg.

Undebau'r gweithlu

Pryderu am ymarferoldeb. Rwy'n awgrymu creu crynodeb lefel uchel.

Rwy'n cefnogi'r ffordd mae'r safonau wedi'u strwythuro, ac o'r farn bod y dimensiynau a'u helfennau'n briodol i bob athro ac arweinydd ysgol.

Mae NASUWT o'r farn bod y newidiadau arfaethedig i'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol yn ddiangen ac yn ddi-werth o ran strwythur a dyluniad.

Mae rhifedd, llythrennedd a diwylliant Cymru yn bwysig ond a ydynt yn ganolog i broffesiynoldeb athrawon?

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Angen rhoi enghreifftiau o werthoedd ac ymagweddau er mwyn eu hintegreiddio yn effeithiol yn yr arfer bob dydd.

Mae'r dimensiynau'n rhoi canllawiau clir ar ddatblygiad pob athro; croesawu agwedd barhaus y safonau (o addysg gychwynnol i athrawon i arweinyddiaeth uwch). Maent yn cydfynd â'r weledigaeth.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae'r gwerthoedd a'r ymagweddau yn berthnasol ac yn cysylltu'n dda â Dyfodol Disglair. Mae'r pum dimensiwn yn rhyng-gysylltu'n dda ac mae'r addysgeg honno yn ffocws clir drwyddi draw. Mae'r chwe maes yn berthnasol. Nid yw'r disgrifyddion ar gyfer yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ddigon uchelgeisiol a blaengar.

Cytunwn fod ysgolion yn gymhleth a bod addysgu'n swydd gymhleth, felly rydym yn croesawu unrhyw beth sy'n galluogi athrawon ac arweinwyr i flaenoriaethu amser ac ymdrech i'w helpu i fod yn fwy effeithiol.

Mae'r Cyngor yn croesawu trefnu'r safonau i bum adran. Rydym hefyd yn hynod falch o weld addysgeg yn cael cymaint o bwyslais yn y safonau newydd.

...rhaid gofalu nad yw gwybodaeth sylfaenol am bynciau yn cael ei hanwybyddu.

Awdurdodau lleol a chonsortia

Mae pum maes y safonau yn briodol iawn ac mae'n dda gweld bod cydweithio ac arloesedd yn cael eu cydnabod fel elfennau allweddol.

Mae rhoi ystyriaeth benodol i hawl broffesiynol yn briodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd yr hawl hon yn cael ei hwyluso'n gyson ar draws pob sefydliad ac efallai y bydd rhai athrawon o dan anfantais, yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn ysgolion sydd angen cymorth dwys.

Mae'r meysydd hyn yn eang ac yn cwmpasu'n ddigonol y meysydd allweddol o addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol. Yn ogystal, mae'r ffaith bod y rhain yn cael eu gweld fel continwum yn neges gadarnhaol i bob aelod staff.

Er ei fod i weld yn gymhleth i ddechrau, pan rydych chi'n dechrau defnyddio/adolygu'r dimensiynau, mae'n dod yn amlwg beth y mae disgwyl i bob athro ei wneud.

Mae symlrwydd y pum dimensiwn a phwysigrwydd addysgeg wrth wraidd y safonau proffesiynol wedi'i groesawu.

Arall

Dylai gwerthoedd ac ymagweddau gynnwys hawl dysgwyr i gael eu paratoi ar gyfer eu dyfodol mewn byd sy'n prysur newid, gan wynebu effeithiau newid hinsawdd, disbyddu adnoddau, bygythiadau i fioamrywiaeth a mwy o anghydraddoldeb.

Mae'r delfrydau'n wych. Bydd rhai agweddau'n anodd eu mesur, fodd bynnag. Yn yr achosion prin lle mae perfformiad islaw'r safon ofynnol, mae ysgolion ac arweinwyr a rhanddeiliaid eraill angen mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru am berfformiad derbynol. Ni fydd meysydd amwys ond yn arwain at densiynau gydag Arweinwyr, Cymdeithasau Proffesiynol ac Adnoddau Dynol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd eglurder ynghylch y diben cyffredin a gyflwynir yn y model. Byddwn yn edrych eto ar sut mae'r berthynas rhwng y cydrannau yn cael ei mynegi ac yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau ac egluro lle bo'n briodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar le canolog y pum dimensiwn fel ffocws pennaf y safonau proffesiynol. Felly bydd y disgrifyddion ategol yn cyflawni'r rôl o ddisgrifio cwmipas pob un o'r prif safonau. Bydd y gwerthoedd a'r ymagweddau yn parhau i ddarparu cyd-destun troswaol ar gyfer y safonau.

Cwestiwn 4 - Ydych chi'n cytuno bod y disgrifyddion sy'n gysylltiedig â phob elfen yn mynegi gofynion priodol ar gyfer ymuno â'r proffesiwn ac ar gyfer addysgu effeithiol iawn a pharhaus?

Cytuno	66%
Anghytuno	14%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	17%
Heb ateb	3%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y disgrifyddion yn briodol, gan gefnogi cynnydd proffesiynol o ddechrau gyrfa a rhoi sail i ddeialog proffesiynol. Nododd nifer o ymatebwyr werth cael deunyddiau enghreifftiol i gefnogi defnydd effeithiol o'r safonau a bod yna le i esbonio rhai disgrifyddion ymhellach.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gormod o ddisgrifyddion a bod y fframwaith o safonau yn ei gyfanrwydd yn rhy gymhleth ac yn rhoi gormod o gyfle i bobl ei ddehongli fel y mynnont. Mynegwyd pryderon hefyd am oblygiadau o ran llwyth gwaith ychwanegol a'r perygl y byddai safonau'n cael eu defnyddio mewn modd cosbol.

Er bod yr ymateb, ar y cyfan, yn gadarnhaol, roedd hi'n amlwg bod yna wahaniaeth barn ym mhob un o'r grwpiau o ymatebwyr ond un.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Mae hon yn nodwedd gadarnhaol iawn, dilyniant clir i athrawon o'r blynyddoedd cynnar i ymarferwyr mwy profiadol a thu hwnt

Mae'r disgrifyddion i weld yn gymorth clir a grymus

Byddai enghreifftiau'n ddefnyddiol ar gyfer rhai agweddau

Dyma dasg feichus arall i'w chwblhau ar gyfer Rheoli Perfformiad ac yn arf arall i Benaethiaid ei ddefnyddio i fesur athrawon a rhoi llwyth gwaith ychwanegol ar broffesiwn sydd eisoes ar ei liniau.

Mae'n annog twf ac yn sail gadarn ar gyfer rheoli perfformiad neu hyfforddi mewn ysgolion.

Mae nifer y disgrifyddion yn rhy uchel o lawer i sicrhau datblygiad effeithiol. Mae gorfod canolbwyntio ar gant a mwy o elfennau gwahanol yn troi'r ymarfer yn un ticio bocsys cymhleth a fydd yn atal datblygiad effeithiol.

Undebau'r gweithlu

Maent i weld yn briodol ac yn hylaw.

Er nad oes unrhyw beth penodol am y disgrifyddion sy'n destun pryder, maent yn aml yn amwys iawn a gallai pobl eu dehongli fel y mynnont i'r fath raddau na fyddant yn mynd i'r afael â'r amrywiad canfyddedig ymhlith graddedigion sy'n ymuno â'r proffesiwn. Hefyd, mae'r pecyn sleidiau yn cynnwys gormod o lawer o ddisgrifyddion, sy'n gwneud y broses gyfan yn weddol anhylaw.

Nodwn fod y Gymraeg yn cael sylw dyladwy yn y gwerthoedd ac ymagweddau yn y safonau a chroesawn hyn yn fawr. Serch hynny dim ond fel un agwedd o'r sgiliau Dysgu Proffesiynol y gwelir sylw i'r Gymraeg. Teimlwn y dylai'r Gymraeg orgyffwrdd a phob agwedd neu mae perygl gwirioneddol y gallai gael ei anghofio

Deallwn fod ysgolion yn lleoedd cymhleth ond, er bod y disgrifyddion o bosibl yn adlewyrchu'r gofynion priodol ar gyfer addysgu/arwain effeithiol ym mhob elfen, rydym o'r farn ei bod hi'n well caniatáu i athrawon ddatblygu eu syniadau annibynnol eu hunain ynghylch ystyr pob dimensiwn ac elfen i'w harferion nhw'u hunain, ar ba gam bynnag o'u gyrfa. Credwn fod hyn yn rhan o fod yn weithiwr proffesiynol.

Mae'r disgrifyddion wedi'u strwythuro'n wael gan fod cryn dipyn o ddyblygu a gorgyffwrdd; maent yn aml yn cynnwys iaith amhriodol; maent wedi'u halinio'n anghywir â'r tri cham gyrfa mewn rhai achosion; mae yna ddiffyg tryloywder, ystyr a chydlyniant; ac maent yn astrus, yn gymhleth ac yn ddryslyd.

Gallai nifer y cydrannau a disgrifyddion, a natur agored y geiriad, olygu eu bod yn anodd eu rhoi ar waith i fonitro a barnu athrawon yn erbyn y safonau.

Mae mesur yn erbyn y safonau newydd yn broses goeth, nid dim ond mater o wneud penderfyniadau 'ffwrdd â hi' yn erbyn rhestr wirio. Mae hyn yn awgrymu cyfrifoldeb

sylweddol ar gyfer athrawon a rheolwyr o ran gwerthuso ac adolygu arfer unigolyn, pennu llwyddiant, a nodi cyfleoedd datblygu proffesiynol priodol ar gyfer pob unigolyn.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae'r rhain yn darparu canllaw cynhwysfawr i ddisgwyliadau. Rydym yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth fod addysgu yn "aml-haenog ac nad yw datblygiad proffesiynol yn llinell syth".

Mae'n ymddangos nad oes llawer iawn o anogaeth yn y safonau arfaethedig i athrawon ymgysylltu â chymunedau pynciau penodol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae ymgysylltu â rhwydweithiau allanol yn ffordd effeithiol o feithrin lefelau uchel o ymarfer proffesiynol parhaus.

Yn y disgrifyddion fel ag y maent ar hyn o bryd, maent yn cyfleu'r meini prawf allweddol ar gyfer dechrau a datblygu yn y gweithlu addysg.

Byddem yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellid mireinio'r safonau arfaethedig er mwyn eu gwneud yn haws i'w defnyddio.

Mae llawer o'r disgrifyddion yn cyfleu gofynion priodol ar gyfer addysgu effeithiol iawn parhaus.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae angen enghreifftiau penodol er mwyn bod hyfforddeion, staff AGA ac athrawon yn gallu datblygu eu dealltwriaeth o'r disgwyliadau a roddir yn y safonau. Er enghraifft, nid yw cyfeirio at arbenigedd pwnc-benodol datblygol wedi'i wneud yn eglur wrth ddatblygu meysydd dysgu. Er hyn, pan fo tystiolaeth gefnogol wedi'i datblygu a'i gyflwyno mewn fformat gwe, mae'n bosib y gallai hyn dawelu unrhyw bryderon presennol.

Cytunwyd gan hyfforddeion bod yr elfennau yn gadarnhaol ac yn eang, ond gwnaethant bryderu nad oedd y lefel ddisgwyliedig/ gofyn disgwyliedig wedi ei r(h)oi yn glir; byddai arbenigedd a chyfarwyddyd gan y staff ysgol ac AGA yn hanfodol.

Mae llawer o'r disgrifyddion yn rhy eang neu'n rhy amwys, a gallai hyn arwain at ddiffyg cysondeb wrth eu rhoi ar waith oherwydd gwahanol safbwyntiau neu wrth i bobl eu dehongli'n wahanol. Er mwyn osgoi hyn, bydd angen canllawiau a hyfforddiant clir a manwl ar gyfer holl aelodau staff SAU ac ysgolion.

Rydym yn cytuno gyda bwriad ac egwyddorion y rhan fwyaf o ddisgrifyddion SAC. Fodd bynnag, byddem yn annog y llywodraeth i roi mwy o arweiniad mewn perthynas â'r enghreifftiau a'r asesiadau o gymharu â'r safonau SAC blaenorol, oherwydd ni fydd disgrifyddion yn unig yn sicrhau dull cyson ar draws y sector HAGA.

Rydym yn croesawu'r disgrifyddion hyn ac yn cytuno eu bod yn cynrychioli gofynion priodol wrth ymuno â'r proffesiwn ac ar gyfer addysgu effeithiol iawn parhaus

Awdurdodau Lleol a Chonsortia

Mae hyn yn newid y diwylliant mewn perthynas â chasglu'r portffolio o dystiolaeth ar gyfer y cyfnod sefydlu. Mae hyn yn gwneud y diwylliant yn fwy agored o lawer ac yn rhoi cyfle i greu deialog ynghylch dysgu ac addysgu.

Mae'r disgrifyddion hyn yn cyfleu disgwyliadau uchel ond realistig ac, o'u defnyddio'n briodol, dylent godi lefelau proffesiynoldeb ymhlith staff.

Rwy'n cytuno mewn egwyddor ond bydd penaethiaid/athrawon/swyddogion angen cymorth a chynghor cyson i sicrhau bod y disgrifyddion yn cael eu dehongli/gweithredu'n gyson.

Mae adborth gan ein hysgolion peilot ac ysgolion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dangos bod ysgolion yn falch iawn o weld bod athrawon yn cael mwy o gyfrifoldeb dros eu datblygiad nhw'u hunain a'u bod yn gweld hyn fel nodwedd gadarnhaol. Bydd defnyddio un set o safonau ar gyfer athrawon ac arweinwyr o gymorth pellach i ymarferwyr weld sut gallant fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaedd a gwella'u hymarfer.

Arall

Unwaith eto mae dod â'r elfennau hyn at ei gilydd yn werthfawr ac o fudd i'r proffesiwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth a fynegwyd gan fwyaf yr ymatebwyr i gwmpas y disgrifyddion ac mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwyntiau a fynegwyd gan lawer o'r athrawon ac arweinwyr a ddaeth i'r gweithdai consortiwm yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Rydym yn mynd i'r afael â'r amheuan mwyaf cyffredin isod.

Roedd gofyn i ymatebwyr i'r ymgynghoriad adolygu'r ystod gyfan o ddisgrifyddion er mwyn gallu ymateb i'r ymgynghoriad. O reidrwydd, roedd hyn yn golygu ystyried pob un o'r disgrifyddion yn ymwneud â Statws Athro Cymwysedig (SAC), ymsefydlu, arferion effeithiol iawn parhaus, a'r ystod o ddisgrifyddion ar gyfer arweinyddiaeth.

Rydym yn cydnabod sut gallai hyn arwain at y farn fod yna lawer iawn o ddisgrifyddion. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn adlewyrchu profiad athrawon, a fydd yn ymwneud yn bennaf â'r safonau hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i'w swydd nhw. Ym mhob achos, mae cryn dipyn llai o safonau ar gyfer ymarferwyr yn y model newydd. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gofyn i Athrawon Newydd Gymhwysu gyflwyno tystiolaeth yn erbyn ystod o 55 safon. O dan y trefniadau newydd, byddant yn gweithio gyda 33 disgrifydd sydd wedi'u grwpio o dan y pum dimensiwn, sef y prif safonau.

Rydym yn disgwyl i athrawon ddewis a dethol sut maent yn ymwneud ag agweddau ar y pum dimensiwn i gefnogi datblygiad elfennau arbennig o'u harferion a'u cynorthwyo i nodi blaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol. Byddwn yn gwneud y disgwyliad hwn yn glir pan fydd y safonau terfynol yn cael eu cyhoeddi.

Yn hytrach na chynyddu llwyth gwaith, dylai ei leihau, yn enwedig mewn amgylchiadau lle'r oedd gweithio gyda'r ystod iawn o safonau yn gyffredin o dan y drefn flaenorol.

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud ag eglurder a ffocws rhai disgrifyddion. O ganlyniad, rydym wedi diwygio rhai disgrifyddion ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn Atodiad 2. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch y posibilrwydd y bydd pobl yn dehongli'r disgrifyddion yn wahanol. Credwn y gall gwahanol athrawon wireddu safonau proffesiynol mewn ffyrdd gwahanol a bod hyn yn nodwedd naturiol o addysgu effeithiol sy'n cefnogi deilliannau llwyddiannus ymhlith dysgwyr.

Rydym yn cytuno gydag ymatebwyr a dynnodd sylw at bwysigrwydd deunyddiau enghreifftiol. Rydym yn archwilio sut gellir casglu deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion, eu darparu ar-lein a'u hadnewyddu'n rheolaidd gan ddefnyddio trefniadau partneriaeth sy'n bodoli'n barod.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn datgan yn glir hefyd y bwriad y byddai'r safonau'n destun adolygiadau a mân-ddiwygiadau bob hyn a hyn i sicrhau bod y safonau'n addas i'r diben o hyd. Er bod Ysgolion Arloesi wedi treialu agweddau ar y safonau newydd, bydd cyfnod mwy estynedig lle bydd athrawon yn gweithio gyda'r safonau newydd yn dangos ble mae angen diwygiadau pellach.

Cwestiwn 5 - Ydych chi'n cytuno bod y disgrifyddion sy'n gysylltiedig â phob elfen yn cefnogi athrawon ac arweinwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol gydol eu gyrfa?

Cytuno	64%
Anghytuno	17%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	16%
Heb ateb	3%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y disgrifyddion yn cefnogi athrawon ac arweinwyr i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ystyrlon a oedd yn cefnogi eu twf proffesiynol. Er eu bod yn cydnabod bod hyn yn gryfder, mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol.

Soniodd nifer fach o ymatebwyr am ddiffyg amser a chyllid fel rhwystrau a allai atal athrawon ac arweinwyr rhag gallu manteisio'n llawn ar rôl y safonau newydd o ran cefnogi dysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Mae'r lefelau uwch yn pennu safonau clir i ymgynghori atynt ac maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i adolygu a myfyrio ar eich addysgu cyfredol eich hun, waeth pa mor hir rydych chi wedi bod yn aelod o'r proffesiwn.

Mae natur a geiriad penagored llawer o'r disgrifyddion yn caniatáu i'r safonau hyn esblygu drwy'r amser, wrth i yrfa'r athro esblygu.

Mae'r disgrifyddion yn ddefnyddiol fel arf hunanasesu, ond nid ydynt yn cefnogi dysgu proffesiynol o reidrwydd.

Ydw, a theimlad bod hyn yn agwedd wan iawn ar hyn o bryd.

Undebau'r gweithlu

Teimlwn fod yr elfen hon yn galonogol, o ran ei bod hi'n gallu bod yn rhy hawdd o lawer i athrawon ac arweinwyr profiadol deimlo nad oes angen iddynt ddatblygu ymhellach. Mae natur bendant y safonau hyn yn ei gwneud hi'n glir bod rhaid i bob athro ac arweinydd ysgol barhau â'i ddatblygiad personol a dysgu proffesiynol drwy'r amser.

Y peth allweddol yw bod athrawon ac arweinwyr ysgol wedi ymrwymo i bwysigrwydd datblygiad proffesiynol yn ddi-ffael ond nad oedd ganddynt yr amser, adnoddau neu ddarpariaeth ansawdd uchel i allu cael mynediad ato a'i gyflawni ym mhob achos.

Wrth gytuno'n llwyr â'r egwyddor hwn, ofnwn er mwyn iddo lwyddo, bod yn rhaid wrth newid diwylliant sylweddol. Mae'r adborth a dderbyniwn o ysgolion am brofiadau gyda'r safonau proffesiynol presennol yn tueddu i fod yn negyddol – bod gormod ohonynt a bod rhai'n eu defnyddio fel rhestr i'w chwblhau (tick list). Er mwyn osgoi hyn, credwn fod yn rhaid newid yr hinsawdd a'r diwylliant. Mae angen i bawb ddeall a derbyn natur a phwrpas y safonau arfaethedig a'r nod am eu defnydd.

Mae dysgu proffesiynol yn gofyn i bobl feddwl a datblygu'n annibynnol, ac ni fydd hyn yn digwydd os yw pob un elfen o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn hanfodol mewn swyddi addysgu ac arwain yn cael ei gorchymyn i athrawon.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae'n dangos iddynt sut mae camu ymlaen o gychwyn cyntaf eu gyrfa ar ôl ennill SAC.

Mae'r pwyslais ar addysgeg, yn enwedig y disgwyliad bod addysgeg yn cael ei datblygu drwy'r amser a'i bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil, yn gam cadarnhaol ac yn un y gobeithiwn a fydd yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth.

Ffactor hollbwysig i lwyddiant y disgrifyddion hyn o ran cefnogi athrawon ac arweinwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu dysgu proffesiynol gydol eu gyrfaedd yw canllawiau, hyfforddiant a chymorth clir i bob rhanddeiliad.

Awdurdodau lleol a Chonsortia

Mae adborth gan ein hysgolion peilot ac ysgolion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn dangos bod ysgolion yn falch iawn o weld bod athrawon yn cael mwy o gyfrifoldeb dros eu datblygiad nhw'u hunain ac yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol. Bydd defnyddio un set o safonau ar gyfer athrawon ac arweinwyr o gymorth pellach i ymarferwyr weld sut gallant fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaedd a gwella'u hymarfer.

Gyda dim ond man cychwyn a disgrifiad o addysgu effeithiol iawn, y tebygolrwydd yw y bydd rhai ysgolion/unigolion yn cynhyrchu continwwm i ddangos enghraifft o gynnydd, o'r gofynion priodol adeg ymuno â'r proffesiwn i addysgu effeithiol iawn.

Bydd y safonau newydd yn sbardun gwych ar gyfer trafodaethau gwybodus fel rhan o'r broses rheoli perfformiad a bydd yn rhoi ffocws i ddeialog wrth i ymarferwyr ysgwyddo cyfrifoldeb am eu dysgu gydol gyrfa.

Ydym – rhaid croesawu'r eglurder y mae'r disgrifyddion yn ei gynnig. Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chrybwyll fwyfwy yn pwysleisio manteision gwell datblygiad proffesiynol ac mae'n bwysig datblygu perchenogaeth bersonol o hyn wrth i ni geisio creu a chynnal carfan o arweinwyr addysgol cadarn.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae'r disgrifyddion yn cynnig arweiniad ac eglurder ynghylch disgwyliadau. O'u defnyddio ar y cyd â mentora, byddant o gymorth i ganolbwyntio ar ba sgiliau, gallu a phrofiad sydd angen eu datblygu er mwyn bod yn 'effeithiol iawn'.

Mae'r Cyngor o'r farn y dylai unrhyw set o safonau fod yn gynyddol. Felly rydym yn croesawu'r pwyslais ar ddatblygu gweithwyr proffesiynol y tu hwnt i gyflawni'r safon Ymsefydlu. Mae hyn yn rhywbeth cyffredin i lawer o'r fframweithiau safonau rhyngwladol, a theimlwn ei fod yn fan cychwyn da i annog yr athrawon myfyriol â'u bryd ar ddysgu sydd eu hangen yng Nghymru.

Cytunwn fod y model pum dimensiwn yn helpu athrawon ac arweinwyr i ystyried eu datblygiad proffesiynol o safbwynt gwahanol i'r safonau blaenorol. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r gwaith o weithredu Dyfodol Disglair. Byddai dda o beth egluro'r iaith ymhellach mewn ambell fan.

Cytunwn â'r egwyddor fod y broses o ddefnyddio'r safonau yn bwysicach na'r cynnyrch, ac rydym yn cefnogi'r syniad y dylai'r safonau esgor ar ddeialog proffesiynol o ansawdd uchel.

Arall

Mae hwn yn gryfder yn y ddogfen. Mae nodi sut mae athrawon i gael eu cefnogi yn gam da ymlaen ac yn hyrwyddo proffesiynoldeb.

Mae DPP yn cael mwy o gydnabyddiaeth yn y disgrifyddion newydd, ond rhaid cofio hefyd nad yw pob athro â'i fryd ar ddod yn arweinydd ysgol-gyfan. Serch hynny, mae galluogi athrawon i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am eu pwnc ac addysg yn gyffredinol yn ddymunol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu dull cenedlaethol mewn perthynas â dysgu proffesiynol sy'n diwallu anghenion ymarferwyr, ysgolion a dysgwyr yn well. Rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a byddwn yn ceisio nodi strategaethau sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, yn cynnwys adnoddau mewn ysgolion. Fodd bynnag, bydd angen i bob rhanddeiliad rannu'r cyfrifoldeb hwn.

Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno bod y disgrifyddion ar gyfer arweinyddiaeth yn rhoi disgrifiad priodol o ddisgwyliadau arweinyddol pob athro a phob un sy'n dewis symud i rôl arweinyddol ffurfiol, hyd at, ac yn cynnwys, prifathrawiaeth?

Cytuno	64%
Anghytuno	11%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20%
Heb ateb	4%
Nifer yr ymatebion	90

Trosolwg o'r ymatebion:

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn cynnwys cefnogaeth amlinellol ar gyfer y disgrifyddion arfaethedig ar gyfer arweinyddiaeth. Yn arbennig, cafwyd cefnogaeth i'r gydnabyddiaeth fod swydd pob athro yn cynnwys elfennau arweinyddol mewn perthynas ag arwain dysgu.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn cydnabod y gwahaniaeth clir rhwng yr agweddau hyn ar arweinyddiaeth a'r rheini sy'n gysylltiedig â rolau arweinyddol ffurfiol â thâl. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn bod perygl i'r ffin fynd yn niwlog, ac y gallai llwyth gwaith athrawon gynyddu os oes disgwyl iddynt ysgwyddo elfennau o rôl arweinyddol ffurfiol heb gydnabyddiaeth na thâl ffurfiol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gellid egluro'r gofynion ar gyfer rolau arweinyddol ffurfiol ymhellach i gydnabod cyfrifoldebau penodol.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Mae'r cysylltiadau'n wych – maent yn dangos bod pob agwedd ar addysgu'n bwysig ym maes arweinyddiaeth ac mae hynny'n chwa o awyr iach – mae'n helpu i gael gwared ar y syniad o 'nhw a ni'.

Rwy'n anghytuno â'r term 'cyfrifoldeb corfforaethol' gan fod yna awgrym bod addysgu/dysgu yn "gynnyrch" sy'n cael ei "weithgynhyrchu" mewn "busnes". Mae hyn yn mynd yn groes i'r weledigaeth gynhwysol a phersonol tu hwnt a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yn y ddogfen.

Rwy'n teimlo bod y safonau arweinyddiaeth, fel y safonau addysgu, yn rhai i ymgyrraedd atynt a'u bod yn rhoi syniad i athrawon sy'n bwriadu ceisio cael dyrchafiad i'r lefel hon o'r disgwyliadau i gyflawni hyn.

Undebau'r gweithlu

O ystyried gofynion arweinyddiaeth, hwyrach na fydd y disgrifyddion hyn, mewn gwirionedd, yn cwmpasu pob un dim ym mhob sefyllfa. Felly, yn ymarferol, gallai elfennau ehangach a llai o ddisgrifyddion fod yn fwy effeithiol o ran dynodi beth sydd ei angen mewn rolau arweinyddol.

Mae'r NASUWT yn nodi â phryder nad yw'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith cyfredol, sy'n nodi'r angen i athrawon reoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol yn eu rôl broffesiynol ehangach, wedi'u hefelychu yn y safonau newydd.

Cytunwn fod y disgrifyddion yn rhoi disgrifiad priodol o ddisgwyliadau arweinyddol, er credwn y dylai cynllunio / paratoi gael ei gynnwys yma yn ogystal.

Ydynt, maent yn briodol ac yn dangos y daith arweinyddol barhaus yn glir.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Roedd rhai athrawon a staff AGA o'r farn bod y disgrifyddion arweinyddiaeth yn lled amwys, ac awgrymwyd ganddynt y dylid cyfeirio yn glir at y gofynion arweinyddiaeth penodol (e.e. CPCP) ar gyfer y sawl sydd am symud i mewn i rolau arweinyddiaeth ffurfiol. Er gwaethaf hynny, cytunwyd gan yr holl athrawon, staff AGA a hyfforddeion a wnaeth gymryd rhan yn, ac ymateb i ymgynghoriad yr Athrofa, y byddai Arweinyddiaeth ar lefel SAC yn ysgogi athrawon i gyfrannu ac i 'roi yn ôl' yn ffurfiol amrywiaeth o ddulliau a sgiliau er lles ysgolion.

Mae datblygiad arweinyddiaeth ar draws y tri cham yn amlwg yn seiliedig ar arferion da ac ymchwil berthnasol ac mae'r pwyslais ar arwain dysgu ar lefel SAC i'w groesawu'n fawr.

Rydym yn awgrymu nad oes angen mynd i'r afael â phob safon ar gyfer SAC. Er enghraifft, mae'n siŵr y bydd hyfforddeion yn ymwybodol o sut mae athrawon yn arwain cyfnodau ac adrannau ond mae gorfod datgan hyn fel safon yn ymddangos yn ddiangen a dim ond yn y cyfnod ymsefydlu y dylid cyflwyno hyn.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae'r pwyslais ar yr ysgol sy'n gwella ei hun yn amlwg. Mae hyn i'w groesawu, yn enwedig hyrwyddo cydweithio gyda phob partner. Byddai'n ddefnyddiol, fodd bynnag, cyfeirio at (ar gyfer penaethiaid a darpar benaethiaid) rôl atebolrwydd a'r berthynas gyda'r corff llywodraethu.

Mae absenoldeb adran sylfaenol ar werthoedd a chredoau craidd, a ddatblygwyd yn ddiweddarach, fel yn y fformat cyfredol, ar gyfer arweinyddiaeth addysg yng Nghymru, yn broblem.

Mae'r trosolwg hwn yn ddefnyddiol ac yn gosod fframwaith i drafodaeth yn dibynnu ar rôl arweinyddol yr aelod o'r staff.

Awdurdodau lleol a Chonsortia

Credu'n gryf fod pob athro gwyb yn arweinwyr dysgu gwyb, ac y dylid cydnabod a dathlu'r arweinyddiaeth hon.

Mae'r dogfennau o gymorth i bennu/pwysleisio rôl arweinyddol pob ymarferydd a'r hyn sydd ei angen er mwyn symud ymlaen i swyddi arweinyddol mwy ffurfiol/uwch.

Mae'r cynnydd yn y pwyslais ar addysgeg yn y disgrifyddion arweinyddol yn newid cadarnhaol o'r safonau arwain blaenorol. Dylai'r disgrifyddion a'r disgwyliadau hyn gyd-fynd â modelau eraill sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion ar gyfer DPP a hyfforddiant ar hyn o bryd.

Unwaith eto, byddem yn croesawu'r cyfle i ail-werthuso geiriad rhai o'r disgrifyddion i sicrhau eu bod yn eglur a rhoi cyfle i bob arweinydd gael synnwyr o berchenogaeth. Unwaith eto, mae'n bwysig bod gwaith yr Academi Arweinyddiaeth newydd yn cefnogi'r meddylfryd hwn ac yn cynorthwyo datblygiadau yn y dyfodol.

Arall

Angen sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o hyn. Mae yna rai tensiynau ar brydiau rhwng Cyfrifoldeb, rolau Arweinyddol a dyraniad CAD.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae canllawiau ar waith ar weithredu materion yn ymwneud â chyflogau ac amodau mewn perthynas â chyfrifoldebau arwain ychwanegol ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob ysgol gadw at y canllawiau hyn.

Bydd yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol newydd yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi datblygiad arweinyddol y rheini sydd am symud ymlaen i rolau arweinyddol ffurfiol. Bydd hyn yn cynnwys pennu trefniadau'r dyfodol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth a sut bydd y safonau proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ffurfiol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo athrawon i gyflawni'r cymhwyster.

Rydym wedi ystyried sylwadau'n ymwneud ag agweddau penodol ar y disgrifyddion ffurfiol o arweinyddiaeth ac wedi eu diwygio i'w gwneud yn fwy eglur. Mae'r diwygiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno mai darparu'r safonau proffesiynol ar-lein a thrwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yw'r dull mwyaf priodol o alluogi athrawon ac arweinwyr i ymgysylltu â'r safonau?

Cytuno	56%
Anghytuno	16%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	28%
Heb ateb	1%
Nifer yr ymatebion	90

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn, yn enwedig mewn perthynas â darparu'r safonau ar-lein. Y farn gyffredinol oedd mai dyma'r ffordd orau o wneud y safonau'n hygyrch, yn ogystal â hyrwyddo cymhwysedd digidol.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn gwrthwynebu defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol gan ddweud ei fod yn wirfoddol a'u bod ar ddeall bod y defnydd cyfredol ohono, y tu hwnt i athrawon newydd gymhwyso, yn isel. Hefyd, roedd sawl ymatebwr o'r farn bod angen dewis arall heblaw darpariaeth ar-lein, er cyfleustra ac er mwyn cynorthwyo'r rheini â gofynion mynediad penodol.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch llwyth gwaith athrawon ac roeddent o'r farn y gallai nifer y safonau/disgrifyddion a'r defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol gael ei weld fel baich i athrawon.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr eu bod o'r farn y byddai angen hyfforddiant a sesiynau briffio i hyrwyddo'r safonau ac annog ymgysylltiad cadarnhaol.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac Ymarferwyr

Mae'r dull cyrchu yn briodol ond mae nifer y safonau'n anhylaw.

Edrych yn iawn, ond fel gyda'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, rhaid cynhyrchu llyfryn, a byddwn yn osgoi creu model gorsyml.

Bydd yn ei wneud yn fwy hygyrch ond nid o reidrwydd yn arwain at fwy o athrawon yn ymgysylltu â'r safonau. Bydd rhaid ei integreiddio yn y broses rheoli perfformiad a fframweithiau DPP i wneud gwahaniaeth go iawn.

Mae gan y Pasbort Dysgu Proffesiynol y potensial i fod yn bwerus iawn – yn enwedig os yw ar gael o hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gyda'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm, bydd yn darparu cyfleoedd i athrawon gael mynediad at ddisgwyliadau a chyflawniadau a'u holrhain, a datblygu sgiliau TGCh hefyd.

Nid oes defnydd helaeth o basbortau ac maent yn wirfoddol. Teimlwn y bydd hi'n cymryd amser i'r dull hwn ennill ei blwyf ond hwyrach y bydd yn fuddiol dros gyfnod hwy. Mae'n bosibl y bydd athrawon yng nghanol eu gyrfa yn llai tebygol o newid.

Rwy'n poeni y bydd y Pasbort Dysgu Proffesiynol yn faich gydol gyrfa i athrawon – ni ddylai fod rhaid iddynt roi tystiolaeth o'u datblygiad byth a hefyd er mwyn bodloni rhywun arall.

Bydd ystyriaethau ymarferol hyn yn tanseilio bwriadau da y safonau proffesiynol hyn. Mae gorfod dod o hyd i'r wefan, mewngofnodi, chwilio am yr hyn rydych chi ei angen a methu â gweld strwythur y safonau yn rhwystr sylweddol. Yn fy mhrofiad i fel mentor allanol, yn aml nid oes gen i'r amser, y caledwedd neu gysylltiad rhyngwyd i fynd i wefan o'r fath tra fy mod i'n siarad â'r athrawon rwy'n eu mentora.

Undebau'r gweithlu

Gan fod llawer o bobl yn gallu cyrchu rhaglenni ar-lein, byddai'n ymddangos fel un o'r ffyrdd priodol o gyflwyno'r ddogfen. Fodd bynnag, ni ddylai fod yr unig ffordd o gael gafael ar y safonau. Fel y mae ar hyn o bryd, mae'r ddogfen braidd yn hir ac yn ddryslyd. Mae angen canllawiau cliriach.

Mae NASUWT yn atgoffa Llywodraeth Cymru bod y defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn ddewisol ac yn wirfoddol i bob athro, ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus. Mae'r Undeb yn disgwyl i'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon barhau i gael eu cynnwys yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Dim ond 7,400 o athrawon sy'n defnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Nid yw darparu'r safonau ar-lein yn unig yn briodol. Dylai gweithredu'r safonau gynnwys digwyddiadau, trafodaethau lle mae'n rhaid ateb cwestiynau am lwyth gwaith a chyllid.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel yn bwysig i athrawon gydol eu gyrfaedd ac i'r perwyl hwn, mae cysylltu'r safonau â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn gam cadarnhaol. Byddem yn cynghori, fodd bynnag, eu bod ar gael mewn fformatau eraill y gall athrawon gael atynt yn hawdd ac yn gyflym hefyd.

Mewn egwyddor, ydym, yn amodol ar adnoddau priodol. Bydd angen mentora a hyfforddiant ar rai hefyd.

*Croesawu'r cynnig i ymgorffori'r safonau yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol
Y tu hwnt i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o wneud y safonau'n hygyrch i bawb, yn cynnwys, er enghraifft, pobl ddall neu sydd â nam ar y golwg.*

Awdurdodau lleol a Chonsortia

Nid yw llawer o athrawon yn ymwybodol o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ac mae eraill o'r farn ei fod yn golygu rhagor o waith papur. Rwy'n hoffi'r syniad o ddarparu'r safonau ar-lein ond yn anghytuno y dylent gael eu cysylltu â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol

Gallaf weld budd cael adnodd 'byw' a hyblyg ond rwy'n pryderu y bydd y fformat hwn yn achosi rhai i oedi cyn ymgysylltu oherwydd eu bod ofn technoleg neu ddiffyg cyfrinachedd, a byddai hynny'n drueni mawr

Defnydd effeithiol o TGCh yw'r ffordd orau o alluogi athrawon i ymgysylltu â'r safonau

Ydw-bydd yn hwb i'n huchelgais o wella llythrennedd TG y gweithlu a defnyddio TG fel storfa dystiolaeth i gefnogi Rheoli Perfformiad a DPP.

Mae'r cyfuniad o fframwaith effeithiol ochr yn ochr â'r pasbort dysgu proffesiynol yn rhoi cyfle go iawn i bob athro ddatblygu ei arferion a sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi'n gyfoes. Ni ellir rhoi amcangyfrif rhy isel o bwysigrwydd sicrhau bod pob athro yn cydnabod gwerth y Pasbort Dysgu Proffesiynol. Bydd ei ddefnyddio i gofnodi cynnydd drwy'r broses ymsefydlu yn helpu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn ond efallai y dylid ystyried y rheini sy'n athrawon eisoes.

Credwn y bydd defnyddio technoleg ddigidol yn bwysig tu hwnt o ran galluogi ymarferwyr i gyrchu'r safonau. Mae angen clir i'r safonau gysylltu â Chyngor Addysg y Gweithlu er mwyn symleiddio prosesau ac osgoi ailadrodd tasgau ac osgoi cynnydd yn y llwyth gwaith. Mae'n hollbwysig bod yr offeryn ar-lein terfynol yn hawdd i'w ddefnyddio a'i gyrchu.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Croesawyd gan bawb y posibilrwydd o gyrchu ar-lein deunydd a geir ar y we, a theimlwyd bod hon yn ffordd briodol o ennyn diddordeb y proffesiwn. Awgrymwyd y byddai rhai ymarferwyr a hyfforddeion yn gwerthfawrogi fformat pdf er mwyn hwyluso darllen.

Ydyn, ond mae amser a hyfforddiant, cymorth, canllawiau ac adnoddau o ansawdd uchel yn hollbwysig i rymuso athrawon ac arweinwyr nid yn unig i ymgysylltu â'r safonau ond i deimlo eu bod yn berchen ar y safonau a manteisio arnynt mewn modd ystyrlon. Heb hyn, bydd yr

effeithiau dymunol yn cael eu colli a bydd effaith, ar y gorau, yn amrywio'n helaeth wrth i ysgolion a rhanddeiliaid ddehongli safonau a thystiolaeth yn wahanol.

Mae hyn yn sicr yn gam ymlaen gan y bydd yn galluogi parhad a dilyniant o SAC i Arweinyddiaeth yn ogystal â chefnogi'r rheini sy'n symud ysgolion yn aml, yn enwedig athrawon sy'n dechrau'u gyrfa gydag asiantaethau cyflenwi. Bydd hefyd yn galluogi deunyddiau enghreifftiol ansawdd uchel i gael eu defnyddio a'u datblygu, gan sicrhau nad yw bwriadau gwreiddiol y safonau yn cael eu gwanhau neu eu camliwio

Eraill

Y system ddylai fod yr un sy'n gweithio orau i'r athro unigol dan sylw. Cyn belled nad yw athrawon yn cael eu hynysu gan dechnoleg a bod digon o gyfleoedd/anogaeth i gydweithio, ni all cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl ond bod yn beth da

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth a fynegwyd gan fwyaf yr ymatebwyr i ddarparu'r safonau ar-lein a'r cydsyniad y bydd hyn yn eu gwneud yn fwyaf hygyrch i ddefnyddwyr. Bydd y safonau eu hunain ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru/Dysgu Cymru mewn fformat rhyngweithiol a fydd yn galluogi unigolion i ddewis sut maent yn eu gwe-lywio. Byddant ar gael hefyd yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg i gynorthwyo athrawon i fyfrio ar eu harferion ac i nodi anghenion dysgu proffesiynol pellach. Y tu hwnt i ymsefydlu, bydd athrawon yn gallu dewis sut i wneud y defnydd gorau o'r swyddogaeth hon yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Mae pryderon ynghylch nifer y disgrifyddion a goblygiadau ar gyfer llwyth gwaith wedi cael sylw yn ein hymateb i Gwestiwn 4.

Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i sicrhau bod y platfform rhyngweithiol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn hygyrch i'r rheini â gofynion penodol o ran mynediad. Byddwn yn ystyried hefyd a oes angen fformatau eraill a sut gellid darparu'r rhain mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r ffordd o weithio arfaethedig.

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno y bydd y dulliau a argymhellir ar gyfer gweithio gyda'r safonau yn cael y dylanwad mwyaf ar arferion proffesiynol?

Cytuno	44%
Anghytuno	18%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	36%
Heb ateb	2%
Nifer yr ymatebion	90

Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y byddai'r dulliau a argymhellir ar gyfer gweithio gyda'r safonau yn cael y dylanwad mwyaf ar arferion proffesiynol. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer defnyddio'r safonau fel cefnlen i drafodaethau rheoli perfformiad ond nid ar ffurf rhestr wirio flynyddol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch a fyddai hyn yn digwydd yn ymarferol.

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod gormod o ddisgrifyddion a mynegwyd pryderon ynghylch goblygiadau cofnodi tystiolaeth yn erbyn disgrifyddion ar gyfer llwyth gwaith.

Awgrymodd rhai sylwadau fod ymatebwyr o'r farn y bydd ymarferwyr angen rhagor o amser ac adnoddau i ymgysylltu'n iawn â'r safonau a dywedodd nifer y byddai angen cymorth, canllawiau a hyfforddiant parhaus er mwyn i'r safonau gael effaith.

Dywedodd ymatebwyr eu bod yn credu y bydd effaith y safonau yn dibynnu ar feddylfryd ymarferwyr unigol, ethos ysgolion unigol a'u parodrwydd i addasu i'r newid mewn diwylliant y mae'r safonau'n ei ysgogi.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Uchelgeisiol iawn yn wir a bydd angen newid sylweddol ym meddylfryd y proffesiwn. Os caiff athrawon eu hargyhoeddi, gall y safonau gael effaith sylweddol ar arferion proffesiynol.

Cyhyd â bod uwch arweinwyr yn gadarn.

Mae angen i athrawon eu defnyddio fel rhan o'r broses hunanwerthuso a myfyrio ac yn unol â rheoli perfformiad, nid dim ond yn adolygiad diwedd blwyddyn i gael codiad cyflog.

Y ffordd fwyaf priodol o wella ansawdd addysgu yng Nghymru fydd rhoi amser i athrawon addysgu, cynllunio a gweithio mewn cymunedau dysgu effeithiol.

Unwaith eto, gormod o lawer, system rhy ddisgrifiadol sydd mewn perygl, diolch i newidiadau yn y system, o ddarod amdani yn gyflym iawn, gan arwain at adolygu a newid.

Rwy'n hoffi'r syniad ond rwy'n pryderu y bydd y dulliau hyn yn troi'n faich gydol gyrfa i athrawon sy'n gorfod cyflwyno tystiolaeth o'u datblygiad yn gyson i fodloni rheolwyr.

Rwy'n ofni y bydd llai o gyfle i deilwra safonau i anghenion unigol, ac rwy'n gobeithio na fyddant yn cael eu hystyried yn 'gontract sy'n rhwymo' a bod rhaid i bob athro brofi bodolaeth pob un disgrifydd (gwastraff mawr o amser).

Mae'r dulliau o awgrymir o ddefnyddio'r safonau yn wych, mae ganddynt y potensial i gael eu defnyddio mewn ffordd a fyddai'n adlewyrchu'r systemau ysgol mwyaf llwyddiannus yn y byd lle mae datblygiad proffesiynol a mentora yn rhan annatod o swydd pob athro. Fodd bynnag, ni all hyn ddigwydd heb i staff gael amser ac adnoddau i gyflawni hyn.

Undebau'r gweithlu

Mae'r cynigion ynghylch sut dylid defnyddio'r safonau a sut gallant fod yn effeithiol yn gywir, ac yn llawn bwriadau da. Rydym yn pwyso a mesur unwaith eto a fydd hyn yn gweithio'n ymarferol oherwydd lefel y manylder y bydd angen i unrhyw unigolyn weithio'i ffordd drwyddo i fodloni ei hun ac eraill ei fod yn cyflawni'r holl safonau gofynnol. Yn syml, mae gormod o ansicrwydd gyda'r safonau newydd.

Rydym yn croesawu'r cadarnhad nad safonau ddylai fod yr unig ofyniad ar gyfer rheoli perfformiad a bydd hyn, yn rhannol, yn helpu i leihau peth o'r pryder ynghylch sicrhau pob

un o'r elfennau drwy'r amser. Bydd y ffaith nad ydynt i fod gweithredu fel rhestr wirio yn beth cadarnhaol.

Hyd yn oed os yw dulliau penodol o weithio gyda'r safonau'n cael eu hargymell, nid yw hynny'n golygu y bydd ysgolion yn defnyddio'r dulliau hynny. Felly, mae'n anodd dweud beth fydd yr effaith go iawn ar arferion proffesiynol.

Rydym yn cytuno bod myfyrio personol a chydweithio cefnogol yn ddulliau cadarnhaol mewn perthynas ag arferion a datblygiad proffesiynol. Serch hynny, mae gennym bryderon difrifol y bydd y safonau, mewn gwirionedd, yn cael eu defnyddio mewn rhai ysgolion fel arf rheoli perfformiad neu gymorth i weithredu achosion gallu. Er ein bod ni'n deall bod y canllawiau'n datgan (ar dudalen 13) "ni fydd yn briodol defnyddio'r safonau.... fel rhestr wirio flynyddol ar gyfer cymhwysedd neu dwf proffesiynol", mae cysylltiad amlwg rhwng y safonau a rheoli perfformiad, felly mae'r canlyniad hwn yn bosiblwydd pendant

Credwn fod yn rhaid sicrhau nad yw'r Safonau Proffesiynol yn cael eu defnyddio fel arf i fesur perfformiad. Rhaid gwneud yn hollol glir sut y dylid defnyddio'r Safonau, rhaid gochel na ddefnyddir y safonau'n 'gynyddrannol'. O ganlyniad rhaid sicrhau hyfforddiant addas ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr fel nad oes unrhyw gamddefnydd. O'u defnyddio'n gywir cytunwn y bydd y dulliau a argymhellir ar gyfer gweithio gyda'r safonau yn cael y dylanwad mwyaf ar arferion proffesiynol.

Nes mynd i'r afael â'r llwyth gwaith, bydd y proffesiwn yn ei chael hi'n anodd croesawu'r newydd heb fawr o egni a gobaith.

Mae ganddynt botensial enfawr.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae gennym amheuan sylweddol iawn am ystyriaeth ymarferol mynd i'r afael â phob un o'r 32 elfen. Mae angen i athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau anodd gael cydbwysedd rhwng deall a chyflawni safonau arferion da, a chreu portffolios o dystiolaeth ar gyfer cynifer o elfennau.

Bydd llawer yn dibynnu ar ethos ysgol yr athro. Lle mae yna amgylchedd o 'arweinyddiaeth ddatganoledig' a pharodrwydd ymhlith arweinwyr i feithrin creadigrwydd ac arloesedd, bydd athrawon yn magu hyder a gwneud cynnydd yn gynt o lawer

Awdurdodau lleol a Chonsortia

Mae'r gallu a'r modd i alluogi staff i weithio gyda'r safonau yn hollbwysig a bydd hynny'n cael effaith.

Ydym – byddwn angen darn o waith i sicrhau bod Llywodraethwyr Ysgolion hefyd yn ymwybodol ohonynt a sut gellir eu defnyddio i ddatblygu a recriwtio staff.

Mae'r argymhellion i'w croesawu. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y gweithredu a'r newid diwylliant sydd ei angen.

Bydd angen darparu cymorth a hyfforddiant parhaus o hyd er mwyn sicrhau'r effaith sydd ei hangen ar arferion proffesiynol.

Mae'r cynllun eu bod nhw yno i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr yn allweddol. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau bod mecanweithiau ar waith i gynorthwyo ysgolion i reoli perfformiad staff yn dda. Bydd angen offerynnau ar arweinwyr i'w cynorthwyo i herio achosion o dangyflawni. Os na ellir defnyddio'r safonau i'r diben hwn, bydd angen datblygu rhywbeth.

Mae'r trefniadau a amlinellir yn y rhan dulliau o'r ymgynghoriad yn cydnabod ystod o wahanol leoliadau a dulliau o'u defnyddio – bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol ar arferion proffesiynol.

Mae'r dulliau sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad yn cynnig ystod o arferion cadarn i ddefnyddio'r safonau'n effeithiol. Byddai cael grwpiau o gydweithwyr yn cyfarfod i drafod a chanolbwyntio ar ddisgrifyddion yn galluogi deialog proffesiynol o ansawdd uchel er ein bod ni'n cydnabod y bydd angen amser o ansawdd ar ymarferwyr i wneud hyn a byddem yn annog trafodaeth ynghylch sut gellir cynorthwyo ysgolion i hwyluso'r dulliau hyn.

Darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon

Bydd ansawdd y sgysiau gyda mentoriaid/rheolwyr llinell yn cael ei bennu gan ansawdd canllawiau, hyfforddiant a chymorth. Mae angen amser hefyd ar athrawon a phob rhanddeiliad i ymgysylltu â'r safonau newydd a chymryd perchenogaeth ohonynt.

Y mae consensws bod ymagwedd gydweithredol a rennir at gynnydd a datblygiad proffesiynol yn hollol briodol ar gyfer y newidiadau systemig sy'n digwydd ym myd addysg. Cydnabyddir a gwerthfawrogir gan staff, hyfforddeion a staff AGA y rhesymwaith a'r ysbryd sy'n wraidd i'r safonau. Ond er hyn, mae rhai yn pryderu y gwnaiff y cwricwlwm newydd gymryd blaenoriaeth dros ddatblygiad proffesiynol athrawon mewn ysgolion.

Rydym yn croesawu'r trywydd cadarnhaol iawn a osodir gan y dulliau a argymhellir. Mae cynnwys, ysbryd a naws y dulliau a argymhellir yn cyd-fynd yn gryf â meysydd eraill o ddiwygio parhaus.

Arall

Mae'n amlwg bod ysgolion arloesi wedi bod yn gweithio'n galed; yn awr mae angen amser i rannu ac ymgysylltu ag arferion effeithiol. Rydym wedi clywed bod y dull yn un sy'n annog archwilio yn hytrach na dim ond gweithredu - er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae angen i ni greu amgylchedd cenedlaethol sy'n un colegol yng ngwir ystyr y gair ac sy'n galluogi gwerthuso a thrafodaethau aeddfed.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Er ein bod ni'n nodi'r gefnogaeth sylweddol ar gyfer y dulliau a argymhellir, nodwn yr amheuan sydd gan rai ymatebwyr.

Mewn perthynas â defnyddio'r safonau newydd i reoli perfformiad, mae disgwyliad yn barod y dylent gael eu defnyddio fel cefnlen yn hytrach na rhestr wirio. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi'n glir bod y disgwyliad hwn yn parhau ac y dylid cael ymgysylltiad detholus a phwrsol gyda'r safonau i gefnogi anghenion dysgu proffesiynol a nodwyd.

Disgwylwn i bob athro, arweinydd a rhanddeiliad arall gefnogi a gweithredu'r ysbryd y cafodd y safonau newydd eu datblygu ynddo gan y proffesiwn a'u rôl arfaethedig fel sbardun ar gyfer deialog a thwf proffesiynol ac nid fel arf cosbi.

Wrth i ddefnydd o'r safonau newydd gynyddu, bydd rhagor o enghreifftiau o sut maent yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn cael eu cynhyrchu a'u rhyddhau.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n credu bod yr amserlen a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer symud i'r safonau newydd yn realistig?

Cytuno	46%
Anghytuno	32%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	21%
Heb ateb	1%
Nifer yr ymatebion	90

Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r safonau, gyda nifer fach yn awyddus iddynt gael eu cyflwyno i bob athro cyn gynted â phosibl.

Cydnabuwyd bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r safonau i athrawon newydd gymhwyso yn anodd, ond roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gynigiodd sylwadau yn derbyn y rhesymau am y cynnig hwn. Mynegwyd pryderon ynghylch a oedd hyn yn rhoi digon o amser i ysgolion a mentoriaid baratoi ar gyfer y newidiadau. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y bydd angen cryn hyfforddiant ar y rheini sy'n symud i'r safonau newydd.

Cyfeiriodd sawl ymatebwr at y berthynas rhwng y safonau a'r cwricwlwm newydd, gyda rhai'n awgrymu y dylai'r cwricwlwm gael ei weithredu cyn, neu ochr yn ochr â'r safon newydd.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac Ymarferwyr

Mae angen cyflwyno'r cwricwlwm newydd cyn newid safonau proffesiynol. Mae angen i ni weld a yw un fenter yn effeithiol cyn bwrw ati gyda mwy ohonynt.

Gyda newidiadau i'r cwricwlwm, mae angen datblygu a gweithredu'r trefniadau newydd hyn ochr yn ochr â hynny.

Anodd dweud oherwydd bod cysylltiad agos rhwng y safonau a'r cwricwlwm newydd, ac mai ychydig iawn o gyngor penodol sy'n bodoli ar sut beth fydd y cwricwlwm newydd.

Mae'n bwysig i'r rhain gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Mae'n drueni bron nad yw'n dechrau gydag addysg gychwynnol i athrawon ond rwy'n sylweddoli pam nad yw hyn yn bosibl.

Ar gyfer ysgolion sydd ag athrawon newydd gymhwyso ym mis Medi 2017, byddai'n ddryslyd gweithredu dwy set o safonau a chynyddu llwythi gwaith athrawon sy'n cynnal adolygiadau, Rheoli Perfformiad ac ati. Felly, byddai'n gwneud synnwyr symud i'r safonau

newydd ym mis Medi. Nid yw'r amserlen o gyhoeddi yn yr haf yn gadael llawer o amser ar gyfer ymgyswrtio cyn gweithredu.

Fel ysgol rydym yn hapus i'w hymgorffori o fis Medi 2017.

Bydd rhai penaethiaid yn sicrhau bod aelodau staff yn gweithredu hyn ar unwaith hyd yn oed os nad yw'n amser i'r aelod staff unigol hwnnw wneud hynny.

Er mwyn i'r safonau gael effaith, rhaid i athrawon gael cyfle i'w harchwilio a myfyrio arnynt. Nid oes cyfle i hyn ddigwydd gyda'r llwythi gwaith cyfredol ar gyfer y pethau rydym ni'n gorfod eu gwneud yn barod.

Ydyn, ond byddai fforymau/cyfarfodydd i rannu enghreifftiau o sut mae ysgolion/unigolion wedi gweithredu agweddau ar y weledigaeth yn ddefnyddiol iawn.

Ar hyn o bryd mae gennym system ar-lein dda, wedi'i chysylltu â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg, sydd wedi gweithio'n dda ers 2014 o ran nodi a yw athrawon newydd gymhwyso wedi bodloni safonau ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu. Bydd angen disodli'r system ar-lein hon yn gyfan gwbl cyn diwedd mis Medi a bydd angen darparu cymorth hyfforddiant ar gyfer pob Mentor Allanol a Mentor yn yr Ysgol ar sut i ddefnyddio'r system hon. A fydd sicrwydd y bydd y wefan a'r gofynion hyfforddiant wedi'u cwblhau cyn diwedd tymor yr haf ym mis Gorffennaf fel ein bod ni'n barod i asesu athrawon newydd gymhwyso newydd yn erbyn y safonau newydd pan fyddant yn dechrau ar eu cyfnodau ymsefydlu ym mis Medi 2017?

Undebau Athrawon a Staff Cymorth

Heb restr glir o safonau a fydd yn gymwys ni allwn gytuno fod yr amserlenni ar gyfer gweithredu yn realistig. Ymhellach, hyd yn oed os mai dyna'r achos, rydym yn cyfrifo mai dim ond 35 diwrnod gwaith fydd yna ar ôl yr ymgynghoriad i ysgolion dderbyn y safonau a chnoi cil arnynt ac yna mynd ati i gynllunio eu rhoi ar waith. Nid yw hynny'n hanner digon o amser.

Mae'r amserlen arfaethedig yn ymarferol cyn belled â bod hyfforddiant digonol yn gallu cael ei drefnu o fewn yr amser. Mae'r Safonau Proffesiynol yn un o lawer o newidiadau sy'n wynebu'r gweithlu addysg yng Nghymru ar y funud. Dylid cofio hyn wrth drafod amserlenni a'u hymarferoldeb.

Mae'n ymddangos nad oes llawer iawn o amser i baratoi ar gyfer ymgorffori'r safonau newydd yn y gwaith cynllunio cwricwlwm ar gyfer 2017/18, neu yn y cynigion achredu newydd cyfredol sydd angen cael eu cyflwyno i Gyngor y Gweithlu Addysg erbyn 1 Rhagfyr 2017.

Nid yw'r amserlen ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn dechrau cyfnod ymsefydlu ar 1 Medi 2017 yn rhoi digon o amser i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y cymorth priodol ar gael.

Rhaid i unrhyw gylch rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith gael ei gwblhau'n llawn cyn i'r safonau newydd gael eu rhoi ar waith.

Cyrff Cenedlaethol a Phroffesiynol

Bydd athrawon angen cymorth i'w helpu i fodloni'r safonau newydd, yn enwedig y rheini'n ymwneud ag addysgu trawsgwricwlaidd. Mae athrawon uwchradd yn arbennig yn debygol o weld y ffordd newydd hon o weithio'n heriol. Mae'n bwysig nad yw'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno ar lefel uwchradd tan fod athrawon wedi cael cyfle i fagu'r sgiliau newydd fydd eu hangen arnynt ym meysydd addysgeg, asesu ac addysgu trawsgwricwlaidd. Felly rydym yn argymhell cyflwyno'r safonau newydd a'r cwricwlwm newydd yn raddol, er mwyn rhoi amser i hyn ddigwydd.

Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod yr amserlen arfaethedig yn realistig ond gallai'r amserlen ar gyfer darparwyr addysg gychwynnol i athrawon fod yn heriol.

Awdurdodau Lleol a Chonsortia

Hoffem feddwl y bydd pob ymarferydd yn barod i newid i ddefnyddio'r safonau newydd cyn gynted ag y bydd y cylch rheoli perfformiad cyfredol yn dod i ben.

Os penderfynir cadw'r dyddiad cychwyn o fis Medi 2017 mae angen cael sicrwydd bod y Safonau ar gael yn ddwyieithog, bod offeryn ar-lein Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael ei ddiweddarau, bod deunyddiau cefnogi ar gael a bod Proffiliau Dechrau Gyrfa yn cael eu diweddarau erbyn diwrnod gwaith cyntaf y flwyddyn.

Ni allaf weld unrhyw broblemau ac mae gosod amserlenni heriol ond cyraeddadwy yn briodol.

Bydd yr amserlen yn heriol ond yn angenrheidiol gan fod y safonau newydd yn welliant mawr. Bydd angen cymorth a/neu hyfforddiant ar ysgolion i sicrhau cysondeb yn y dehongli.

Fodd bynnag, byddai'n fwy buddiol cynnwys pob athro gyda'r safonau o'r cychwyn cyntaf.

Nid yw'r newid arfaethedig i athrawon newydd gymhwyso ym mis Medi 2017 yn realistig a byddai'n rhoi pwysau sylweddol ar y corff a'r ysgolion priodol yn achos mentoriaid yn yr ysgol a mentoriaid allanol. Fodd bynnag, byddai blwyddyn i gynllunio ac uwchsgilio ysgolion yn briodol.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae'r bwriad bod athrawon newydd gymhwyso yn dechrau defnyddio'r safonau newydd ym mis Medi 2017 braidd yn uchelgeisiol, a gwnaiff lwyddo dim ond os caiff hyfforddiant trwyadl ei ddarparu ar gyfer mentoriaid. Croesewir gwahodd darparwyr AGA i ystyried gweithio gyda'r safonau newydd o Fedi 2018, ond ni fyddai'n briodol bod y safonau hyn i gyd yn orfodol ar gyfer pob rhaglen ar draws Cymru gyfan.

Rydym yn cytuno â chyflwyno'r safonau newydd yn unol â'r rhaglenni HAGA ym mis Medi 2019. Byddem yn croesawu'r cyfle i dreialu asesu'r safonau newydd gyda chysiau HAGA cyfredol bach fel y RhAG. Byddai hyn yn ein galluogi i dreialu a datblygu modelau a moddau asesu effeithiol mewn partneriaeth ag ysgolion cyn gorfod eu gweithredu ar draws y ganolfan gyfan.

Arall

Rwy'n credu bod angen mwy o amser i'w cysylltu nhw â'r cwricwlwm newydd.

Angen peidio rhuthro newidiadau heb yr arweiniad, yr amser a'r gefnogaeth i athrawon.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Er ein bod yn croesawu brwdfrydedd rhai ymatebwyr ar gyfer yr amserlen arfaethedig, rydym yn cydnabod bod rhai heriau o ran logisteg y bydd angen ymateb iddynt er mwyn cyflwyno'r safonau ar gyfer y rheini sy'n cychwyn eu cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2017. Fodd bynnag, at ei gilydd, credwn fod y manteision i athrawon newydd gymhwyso, y sector ysgol ehangach ac, yn y pen draw, dysgwyr, yn gwrthbwysu'r risgiau. Felly bydd yr amserlen arfaethedig ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yn cael ei gweithredu yn ôl y bwriad, gyda'r safonau newydd yn dod yn gymwys yn ffurfiol i'r rheini sy'n dechrau eu cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2017.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chonsortia i edrych ar yr hyn sydd ei angen i ddarparu cymorth effeithiol i athrawon newydd gymhwyso ac i'w mentoriaid.

Ar gyfer pob athro arall, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig bod blwyddyn academiaidd 2017/18 ar gael i ddechrau ymgysylltu â'r safonau newydd cyn iddynt ddod yn orfodol o 1 Medi 2018. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnig bod athrawon unigol yn gallu penderfynu pa bryd yn ystod y flwyddyn y maent am symud i'r safonau. Credwn fod hyn yn rhoi digon o amser a hyblygrwydd i athrawon fagu hyder mewn perthynas â'r safonau ac ymgysylltu â nhw, a chael rheolaeth bersonol dros y newid. Felly gall athrawon ddewis sut dylai hyn gyd-fynd â'u cylch rheoli perfformiad.

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnig y dylai'r cwricwlwm gael ei gyflwyno cyn y safonau newydd neu ochr yn ochr â nhw. Ni chredwn y byddai hyn o fudd i athrawon gan y byddent yn wynebu newid sylweddol mewn cyfnod byr. Bwriad cyflwyno'r safonau newydd o flaen llaw yw cynorthwyo athrawon i baratoi ar gyfer eu rôl yn y cwricwlwm newydd.

Felly bydd yr amserlen yn cael ei gweithredu fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad.

Mewn perthynas â chyflwyno'r safonau newydd ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon byddwn yn gweithio gyda'r sector addysg gychwynnol i athrawon i edrych ar y posibilrwydd o symud i'r safonau newydd o fis Medi 2018, cyn iddynt fod yn gymwys yn ffurfiol o fis Medi 2019. Os caiff yr opsiwn hwn ei fabwysiadu, byddem yn disgwyl i bob darparwr addysg gychwynnol i athrawon symud i'r safonau newydd ar yr un pryd.

Cwestiwn 10 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r safonau proffesiynol newydd arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, y benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fydd y safonau newydd yn eu cael yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Wedi ateb	62%
Heb ateb	38%

Cwestiwn 11 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y safonau arfaethedig i) fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Wedi ateb	47%
Heb ateb	53%

Roedd y ddau gwestiwn hyn yn gofyn am farn ar oblygiadau ar gyfer y Gymraeg. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi sylw i'r ddau gwestiwn oherwydd bod yr ymatebion a roddwyd yn debyg.

Trosolwg o'r ymatebion:

O'r rheini a ymatebodd i'r cwestiynau, roedd y rhan fwyaf o'r farn y bydd y pwyslais ar y Gymraeg yn y safonau yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith, ond dywedodd rhai na fyddai'r safonau'n cael fawr ddim neu ddim effaith ar yr iaith.

Er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol, roedd ymatebwyr yn awgrymu bod athrawon yn cael cyllid, hyfforddiant ac amser priodol, gydag eraill yn dweud bod angen diffinio disgwyliadau ar athrawon mewn perthynas â'r Gymraeg yn glir.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Rwy'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol newydd arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ond mae angen enghreifftio'r hyn sydd i'w ddisgwyl ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd.

Credaf fod digonedd o gyfleoedd i bobl ddysgu a defnyddio Cymraeg mewn ysgolion. Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymreig wedi ennill eu plwyf yn yr ystafell ddosbarth, felly ni allant ond elwa ar y dull myfyriol hwn.

Dydw i ddim yn credu y bydd y safonau'n cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Dwi ddim yn hollol siŵr o hyn. Dibynnu ar sawl ffactor ond hoffwn i feddwl y bydde fe.

Undebau'r gweithlu

Hyderwn y bydd y safonau proffesiynol ynghyd â'r polisi Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn ysgogi llawer mwy o weithwyr yn y sector addysg i ddysgu'r Gymraeg. Mae cyfle yma i normaleiddio'r Gymraeg a chreu gwlad naturiol ddwyieithog. Bydd angen adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg er mwyn gwireddu canlyniadau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Dylai geiriad y safon gynnwys 'disgwyliad ac ymrwymiad i gefnogi atebolrwydd wrth i athrawon ddatblygu hyfedredd o ran siarad ac addysgu Cymraeg'.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

... nid yw'r disgrifyddion yn ddigon clir mewn perthynas â'r Gymraeg

Awdurdodau lleol a Chonsortia

... rhaid buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth mewn awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant iaith o ansawdd uchel i ddatblygu sgiliau iaith unigolion ac i ddatblygu eu sgiliau addysgu Cymraeg fel ail iaith i ddisgyblion, yn enwedig yn y cyfnod cynradd ...

Dylai'r safonau sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso ac athrawon ac arweinwyr presennol yn cael pob cyfle i ddefnyddio Cymraeg a bod yr iaith yn cael ei thrin yn gyfartal ag unrhyw iaith arall. Mae rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg i'w groesawu.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon

Mae angen mwy o bwyslais diffiniedig er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio i'r eithaf ym mhob ysgol a gan bob athro a dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol.

Mae angen canllawiau mwy eglur o lawer, a manylion ynghylch sut dylid cyflwyno'r Gymraeg mewn pynciau heblaw Cymraeg, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a sut gallai hyn edrych. Byddai'r canllawiau cliriach, gyda ffocws penodol ar ehangu'r defnydd o addysgeg effeithiol, yn cael mwy o effaith ar athrawon a dysgwyr mewn ysgolion ledled Cymru.

Dim ond un llinyn sydd wedi'i ychwanegu mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Mae perygl i hyn ymddangos fel 'ôl-ystyriaeth' a phechu siaradwyr Cymraeg.

Arall

Rhaglen DPP o bosibl i ddatblygu Cymraeg mewn ysgolion ail iaith ar gyfer staff addysgu – neu gynnig cyrsiau Cymraeg ar-lein am bris gostyngol/am ddim i athrawon.

Dylai pob athro/arweinydd yng Nghymru allu dangos sut mae'n cyfrannu at y Gymraeg mewn ysgolion a sut maent yn darparu cyfleoedd i'w dysgwyr yn y Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd y model newydd o safonau proffesiynol yn rhoi lle amlwg i'r Gymraeg drwy ei gwneud yn rhan annatod o'r gwerthoedd ac ymagweddau trosfwaol. Mae disgwyliad i bob athro ddatblygu ei sgiliau Cymraeg gam wrth gam. Ni chredwn ei bod hi'n ddymunol bryd hyn i nodi lefelau cymhwysedd neu'r gyfradd cynnydd oherwydd bydd hon yn dibynnu ar y sgiliau sydd gan yr athro eisoes a'r cyd-destun lle mae'n gweithio. Mae ystod o gyfleoedd a dulliau ar gyfer gwella sgiliau iaith ac mae'r rhain yn debygol o gynyddu dros amser.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cael deunyddiau enghreifftiol i ddangos sut gellir defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Rydym ni wrthi'n edrych ar sut gall enghreifftiau ac arfer gorau gan ysgolion a chonsortia gael eu darparu ar-lein a'u diweddarau'n rheolaidd.

Cwestiwn 12 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Wedi ateb	52%
Heb ateb	48%

Trosolwg o'r ymatebion:

Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn.

Roedd sylwadau penodol yn cynnwys:

Ysgolion ac ymarferwyr

Sut bydd cynnydd yn erbyn y safonau'n cael ei olrhain?

Rwy'n credu bod angen i asesu ar gyfer dysgu dreiddio drwy'r safonau.

Rhaid ystyried materion llwyth gwaith i greu amser ac egni ar gyfer dysgu proffesiynol.

Undebau'r gweithlu

Os ydynt am gael eu mabwysiadu'n llwyddiannus, mae'n hanfodol bod darpariaeth ddigonol ar gyfer ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus gref ac adnoddau hyfforddi ar lefel consortiwm a lefel ysgol unigol.

Cyrff cenedlaethol a phroffesiynol

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn falch o weld bod cyfrifoldeb corfforaethol yn elfen o'r safonau arfaethedig. Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad beth yn union fydd yr elfen hon yn ei gynnwys a hoffai'r Comisiynydd Gwybodaeth fanteisio ar y cyfle hwn i bwysleisio pwysigrwydd cynyddu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn addysgu, ac yn enwedig yn achos athrawon mewn rolau arweinyddol. Mae'r Cyngor yn credu ei bod hi'n hanfodol bod enghreifftiau o safon yn cael eu paratoi i helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r safonau.

Awdurdodau lleol a Chonsortia

Bydd athrawon cyflenwi byrdymor yn ei chael hi'n anoddach nag athrawon newydd gymhwyso mewn ysgol i gwblhau'r broses oherwydd, mewn gwirionedd, nid ydynt yn cael yr un cyfleoedd a chymorth ag athrawon sy'n cwblhau'r broses mewn ysgol.

Darparwyr addysg gychwynnol i athrawon:

Meysydd eraill sydd fel pe baent yn absennol yw.....Datblygiad plant.....

Dylid cynnwys rheoli ystafell ddosbarth (yn ogystal â rheoli ymddygiad) gan eu bod yn ddwy agwedd ar wahân ar reoli

Dylid cyfeirio at lesiant athrawon ac efallai ei ymgorffori yn y dimensiwn arweinyddiaeth

Er ein bod ni'n hapus y bydd dull gwahanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y safonau AB; un sy'n adlewyrchu amrywiaeth y ddarpariaeth a'r myfyrwyr yn y sector; rydym yn siomedig

nad oedd yr ewyllys i ddiwygio'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon i sicrhau mwy o gysondeb rhwng y safonau mewn ysgolion a'r sector AB. Dyma golli cyfle i hyrwyddo'r ffaith fod staff addysgu mewn addysg orfodol a'r rheini mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn perthyn i'r un gweithlu.

Mae angen integreiddio / cael mynediad at y Pasbort Dysgu Proffesiynol er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn SAC.

Arall

Braf gweld fod y cysylltiad rhwng ymchwil ac addysgu yn cael ei gefnogi a'i hybu yma a bod dilyniant proffesiynol yn cael sylw haeddiannol.

Rhaid i ni annog athrawon i weld pobl ifanc fel pobl sy'n creu newid a gwneud y ddealltwriaeth hon yn rhan annatod o'r safonau proffesiynol yng Nghymru.

Mae angen gwneud diogelu yn fwy amlwg.

Mae angen i gyd-destunau "bywyd go iawn, dilys" gynnwys rhai sy'n mynd i'r afael â'r materion enfawr a fydd yn wynebu pobl ifanc. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd sy'n eu galluogi i ddatblygu gweledigaethau cadarnhaol o'r dyfodol a dechrau gweithredu eu hunain.

Mae angen i'r cyfeiriadau ym maes arloesedd at 'weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru' gynnwys rhywbeth mwy penodol ar ddysgu am effeithiau newid hinsawdd, dihyysbyddu adnoddau, bygythiadau i fioamrywiaeth a chynnydd mewn anghydraddoldeb.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae llawer o'r materion sy'n codi wedi cael sylw mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol. Nodwn y sylwadau a byddwn yn eu hystyried wrth i ni baratoi'r safonau ar gyfer eu cyhoeddi ac wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o'u cyflwyno mewn ysgolion. Byddwn y sicrhau bod ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael gwybodaeth reolaidd am gynnydd mewn perthynas â'r safonau newydd a'r amserlen weithredu.

Camau nesaf

Mae'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r safonau newydd wedi'u datgan, lle bo'n briodol, yn ei hymatebion i bob cwestiwn. Yn arbennig, byddwn yn:

- Gweithio gyda chonsortia i sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith i gefnogi athrawon newydd gymhwyso sy'n gweithio i'r safonau newydd o 1 Medi.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r safonau newydd.
- Datblygu gwell fformat(au) ar-lein i wella hygyrchedd y safonau newydd
- Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ymgorffori'r safonau yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol i helpu gyda chynllunio a myfyrio personol
- Casglu a darparu deunyddiau enghreifftiol i gynorthwyo gyda defnyddio'r safonau newydd

Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

Angharad Crompton
Angus Ferraro
ASCL
Ashoka UK
A Thomas
ATL Cymru
Cyngor Caerdydd
Caroline Swann
Gwasanaeth Addysg Catholig
Consortiwn Canolbarth y De
Canolfan y Dechnoleg Amgen
Tîm Cyngori Her a Chwricwlwm, ALI Abertawe, ERW
Chris Parry
Rhanbarth ERW
Estyn
Cyngor y Gweithlu Addysg
Cyngor Astudiaethau Maes
Ysgol Uwchradd Fitzalan
G W Davies
Y Gymdeithasol Ddaearyddol
Geraint Bevan
Llywodraethwyr Cymru
Consortia Rhanbarthol
Hayley Blackwell
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Michael Walsh
NAHT Cymru
NASUWT
Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru
NUT Cymru
Yr Eglwys Bresbyteraidd a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Rolfe Clarke
Ysgol Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol – Prifysgol De Cymru
Sian Rowles
Stonewall
Teach First Cymru
UCAC
UCU
ALI Bro Morgannwg
Voice Cymru
Yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Atodiad 2: Crynodeb o'r diwygiadau

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaed rhai newidiadau i'r disgrifyddion sy'n rhan o bob un o'r pum dimensiwn ac mae'r rhain i'w gweld isod ochr yn ochr â'r testun gwreiddiol. Mae'r holl ddisgrifyddion eraill yn aros fel ag y maent yn y canllawiau a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad ac maent ar gael yn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/safonau-proffesiynol-newydd-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth>

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu yn awr er mwyn cadarnhau'r disgrifyddion terfynol cyn gynted â phosibl. Bydd fersiwn lawn o'r safonau newydd yn cael ei darparu yn barod i ysgolion eu defnyddio o fis Medi.

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
ADDYSGU		
Addysgeg - Rheoli'r amgylchedd dysgu		
Ymsefydlu	Mae gwaith trefnu dysgwyr a chydweithwyr, arferion ac adnoddau yn canolbwyntio ar arferion ac ymddygiad dysgu sy'n bodloni'r pedwar diben ac sy'n cael eu deall gan ddysgwyr yn y cyd-destun hwnnw.	Mae gwaith trefnu dysgwyr a chydweithwyr, arferion ac adnoddau yn canolbwyntio ar feithrin arferion ac ymddygiad dysgu sy'n bodloni'r pedwar diben ac sy'n cael eu deall gan ddysgwyr yn y cyd-destun hwnnw.
Effeithiol iawn	Mae dysgwyr yn mynegi'r ffordd y mae eu sgiliau trefnu eu hunain yn datblygu i sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.	Mae dysgwyr yn mynegi'r ffordd y mae eu sgiliau trefnu eu hunain yn datblygu i ddangos eu bod yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.
Addysgeg - Asesu		
Ymsefydlu	Mae asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu.	Mae asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu pob dysgwr .
Addysgeg - Gwahaniaethu		
Effeithiol iawn	Mae gwahaniaethu yn soffistigedig iawn i'r graddau lle mae'r dysgwyr yn cydnabod pam mae angen iddynt gael eu hymestyn neu eu cynorthwyo ac yn	Mae gwahaniaethu yn soffistigedig iawn i'r graddau lle mae'r dysgwyr yn cydnabod pam mae angen iddynt gael eu hymestyn neu eu cynorthwyo ac yn cymryd

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
	cymryd rhan yn y cynllunio.	rhan yn y gwaith o gynllunio profiadau dysgu.
Addysgeg – Cofnodi ac adrodd		
Ymsefydlu	Mae cofnodion ac adroddiadau'n disgrifio'n gywir y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr, anghenion dysgu allweddol ac yn amlinellu camau nesaf pwysig.	Mae cofnodion ac adroddiadau'n disgrifio'n gywir y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr, yn nodi anghenion dysgu allweddol ac yn amlinellu camau nesaf pwysig.
Addysgeg - Cynnwys partneriaid mewn dysgu		
SAC	Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.	Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.
Ymsefydlu	Gwneir ymdrech barhaus i gynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill mewn datblygu dysgwyr o ran y pedwar diben.	Gwneir ymdrech barhaus i gynnwys rhieni, gofalwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill mewn datblygu dysgwyr o ran pedwar diben y cwrwllwm.
Effeithiol iawn	Rhoddir cymorth cadarn i rieni a gofalwyr helpu eu plentyn i ddatblygu o ran y pedwar diben. Mae cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hannog i gefnogi'r pedwar diben ac, yn enwedig, yr ymgyrch i feithrin profiad dilys fel rhan naturiol o ddysgu.	Rhoddir cymorth cadarn i rieni a gofalwyr helpu eu plant i ddatblygu o ran y pedwar diben. Mae cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu hannog i gefnogi'r pedwar diben ac, yn enwedig, yr ymrwymiad i feithrin profiad dilys fel rhan naturiol o ddysgu.
Addysgeg – Pedwar diben i ddysgwyr		
SAC	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgu.	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu.
Ymsefydlu	Ceir tystiolaeth glir o ymdrechion parhaus i ymgorffori'r pedwar diben i ddysgwyr.	Ceir enghreifftiau clir o ymdrechion parhaus i ymgorffori'r pedwar diben i ddysgwyr.
Effeithiol iawn	Mae'r ffordd y mae'r pedwar diben wedi'u hymgorffori, eu datblygu a'u hymestyn wedi'i	Mae'r ffordd y mae'r pedwar diben wedi'u hymgorffori, eu datblygu a'u hymestyn wedi'i mynegi'n glir, gydag

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
	mynegi'n glir, gyda thystiolaeth addysgeg ar gael i gydweithwyr.	effaith addysgeg ar ddeilliannau dysgu wedi'i mynegi i gydweithwyr.
Addysgeg – Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu		
Effeithiol iawn	Mae gwaith dysgu wedi'i gynllunio yn gwneud defnydd o'r dull gweithredu disgybledig tuag at gynnwys pwnc o fewn cymwysiadau bywyd go iawn ar draws y pedwar diben.	Mae gwaith dysgu wedi'i gynllunio yn gwneud defnydd o'r dull gweithredu disgybledig tuag at gynnwys pwnc gyda sefyllfaoedd bywyd go iawn ar draws y pedwar diben.
Addysgeg – profiadau dysgu cyfunol		
SAC	Mae'r athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgol creadigol er mwyn ateb heriau addysgol, a hynny er budd pob dysgwr.	Mae'r athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgol creadigol er budd pob dysgwr.
Addysgeg – Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys		
Ymsefydlu	Ceir tystiolaeth o gyd-destunau bywyd go iawn, dilys ar gyfer dysgu sy'n cael eu darparu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu.	Ceir enghreifftiau o gyd-destunau bywyd go iawn, dilys ar gyfer dysgu sy'n cael eu darparu fel rhan naturiol o'r profiad dysgu.
Effeithiol iawn	Mae dysgwyr yn cychwyn ac yn llywio profiad dilys ac yn myfyrio arno sy'n atgyfnerthu dysgu blaenorol ac yn darparu cyd-destun ar gyfer gwaith datblygu pellach ar draws y pedwar diben.	Mae dysgwyr yn dechrau, llywio a myfyrio ar brofiad dilys sy'n atgyfnerthu dysgu blaenorol ac yn darparu cyd-destun ar gyfer gwaith datblygu pellach ar draws y pedwar diben.
Addysgeg – Dilyniant mewn dysgu		
Effeithiol iawn	Gall dysgwyr ac athrawon weld a mapio dysgu a myfyrio arno i'r graddau eu bod yn gallu mynegi camau nesaf mewn ffordd sy'n cymhwyso dysgu disgybledig yn y pedwar diben.	Gall dysgwyr ac athrawon weld a mapio dysgu a myfyrio arno i'r graddau eu bod yn gallu mynegi camau nesaf mewn ffordd sy'n cymhwyso dysgu disgybledig ar draws y pedwar diben.
Addysgeg – Herio a disgwyliadau		
Ymsefydlu	Mae'r athro yn cyfathrebu lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer ei ddysgwyr sy'n cael eu	Mae'r athro yn cyfathrebu lefelau priodol o her a disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
	hadlewyrchu yn ansawdd eu gwaith dysgu a'u cyflawniad.	hadlewyrchu yn ansawdd eu gwaith dysgu a'u cyflawniad.
Effeithiol iawn	Mae dysgwyr yn mwynhau'r cyfle i ymestyn eu hunain a manteisio ar sgiliau blaenorol wrth ddatblygu sgiliau newydd.	Mae dysgwyr yn mwynhau'r cyfle i ymestyn eu hunain a manteisio ar sgiliau blaenorol wrth geisio datblygu sgiliau newydd.
Addysgeg – Dysgwyr yn arwain dysgu		
Ymsefydlu	Caiff dysgwyr eu hannog i awgrymu ffyrdd y gellir datblygu neu ddehongli dysgu ymhellach.	Caiff dysgwyr eu hannog i awgrymu ffyrdd y gellir datblygu, dehongli neu ymestyn dysgu ymhellach.
Effeithiol iawn	Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol wrth reoli eu agenda ddysgu eu hunain gyda gweithgarwch a gaiff ei ysgogi a'i benderfynu ganddynt hwy eu hunain a fydd yn eu helpu i bennu eu disgwyliadau uchel eu hunain.	Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol wrth reoli eu agenda ddysgu eu hunain gyda gweithgarwch a gaiff ei ddechrau a'i benderfynu ganddynt hwy eu hunain a fydd yn eu helpu i bennu eu disgwyliadau uchel eu hunain.
Addysgu – Myfyrio	Myfyrio	Myfyrio ar ddysgu
SAC	Wrth gynllunio, mae'r athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrion am ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu.	Wrth gynllunio, mae'r athro'n arddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd annog dysgwyr i fyfyrion ar ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu a'u gwerthuso .
Effeithiol iawn	Mae gwaith gwerthuso dysgu yn ystyried pob agwedd; cynnyrch, ansawdd, datblygiad dysgu, agweddau sy'n cael eu hosgoi ac i ba raddau yr eir i'r afael â'r pedwar diben wrth fyfyrion ar y dysgu a ddangosir. Yn deillio o hyn ceir ffocws naturiol ar yr ymddygiad sydd ei angen yn y dyfodol i ymestyn fel dysgwr.	Mae gwaith gwerthuso dysgu yn ystyried pob agwedd; cynnyrch, ansawdd, datblygiad dysgu ac i ba raddau yr eir i'r afael â'r pedwar diben wrth fyfyrion ar y dysgu a ddangosir. Yn deillio o hyn ceir ffocws naturiol ar yr ymddygiad sydd ei angen yn y dyfodol i ymestyn fel dysgwr.

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
Addysgeg – Deilliannau dysgu a lles		
Effeithiol iawn	Mae dysgwyr yn cael eu galluogi i ddeall sut mae eu ffocws ar les personol a'u hysgogiad ar gyfer canlyniad, cyfrwng ac ansawdd priodol yn cael effaith o ran defnyddioldeb at y diben a'r gynulleidfa.	Mae dysgwyr yn cael eu galluogi i ddeall sut mae eu ffocws ar les personol a'u hymrwymiad ar gyfer deiliant, cyfrwng ac ansawdd priodol yn cael effaith o ran defnyddioldeb i'r diben a'r gynulleidfa.
Cydweithredu – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol		
Ymsefydlu	Mae'r athro yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i feithrin arbenigedd addysgu er budd dysgwyr ac yn ceisio cyfleoedd i gryfhau cydweithredu.	Mae'r athro yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i feithrin arbenigedd er budd dysgwyr ac yn ceisio cyfleoedd i gryfhau cydweithredu.
Dysgu proffesiynol – Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil		
SAC	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad bodau dynol, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed , a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.
Ymsefydlu	Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau rhesymegol o ran ei addysgeg yn seiliedig ar waith darllen a chanfyddiadau ymchwil perthnasol.	Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau addysgeg rhesymegol yn seiliedig ar waith darllen a chanfyddiadau ymchwil perthnasol
Dysgu proffesiynol – Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol		
SAC	Mae'r athro'n ymgymryd ag ymchwil gweithredol ar raddfa fach, boed ar ben ei hun neu mewn cydweithrediad â chydweithwyr, i archwilio'n fanwl i ddysgu a phennu goblygiadau ar gyfer arferion.	Mae'r athro, ar sail gwybodaeth, yn deall cyfraniad gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil gweithredol ar raddfa fechan at ddatblygiad arferion.

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
Effeithiol iawn	Ceir tystiolaeth o rôl weithredol yn y gymuned addysg ehangach gyda chyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu.	Mae'r athro'n cymryd rôl weithredol yn y gymuned addysg ehangach gyda chyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu
Dysgu proffesiynol – Dysgu proffesiynol parhaus		
SAC	Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn dylanwadu ar ddysgu parhaus yr athro ac mae'n hybu datblygu a thwf proffesiynol.	Mae'r Pasbort Dysgu Proffesiynol yn dylanwadu ar fyfyrion beirniadol a dysgu parhaus yr athro ac mae'n hybu datblygu a thwf proffesiynol.
Effeithiol iawn	Mae dysgu proffesiynol parhaus yn cael ei ysgogi gan yr athro sy'n llunio twf proffesiynol yn ofalus o fewn cyd-destun y pedwar diben ac ymrwymiad i arwain datblygiad cydweithwyr y tu mewn i'r ysgol a'r tu hwnt iddi.	Mae dysgu proffesiynol parhaus yn cael ei lywio gan yr athro sy'n llunio twf proffesiynol yn ofalus o fewn cyd-destun y pedwar diben ac ymrwymiad i arwain datblygiad cydweithwyr y tu mewn i'r ysgol a'r tu hwnt iddi.
Dysgu proffesiynol – Sgiliau Cymraeg		
Ymsefydlu	Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.	Ceir ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.
Arweinyddiaeth – Cymryd cyfrifoldeb personol		
SAC	Yr athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.	Yr athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.
Effeithiol iawn	Mae cyfrifoldeb proffesiynol personol yn cynnwys	Mae cyfrifoldeb proffesiynol personol yn cynnwys

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
	datblygu arferion rhagorol yn barhaus ar draws y safonau proffesiynol.	datblygu arferion effeithiol iawn yn barhaus ar draws y safonau proffesiynol.
Arweinyddiaeth – Arfer cyfrifoldeb corfforaethol		
SAC	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, cyfreithiol a phroffesiynol, ac maent yn eu deall.	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch , cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.
Ymsefydlu	Mae'r athro'n cyfrannu at nodau a datblygiad yr ysgol drwy ddangos cydymffurfiaeth â pholisïau y cytunwyd arnynt ac mae'n barod i geisio cyngor lle y bo angen.	Mae'r athro'n cyfrannu at nodau a datblygiad yr ysgol drwy ddangos cydymffurfiaeth gyson â pholisïau y cytunwyd arnynt ac mae'n barod i geisio cyngor lle y bo angen.
Arweinyddiaeth – Arwain cydweithwyr, prosiectau a rhaglenni		
SAC	Drwy brofiadau cydweithredol yn ystod y lleoliad, mae'r athro'n arddangos ei ddealltwriaeth o sut y dylid arwain dysgu, a'i ymrwymiad i wneud hynny.	Drwy brofiadau cydweithredol mewn ysgolion a chyd-destunau eraill , mae'r athro'n arddangos ei ddealltwriaeth o sut y dylid arwain dysgu, a'i ymrwymiad i wneud hynny.
Ymsefydlu	Mae'r athro'n defnyddio rhinweddau ei arfer proffesiynol ei hun i ddylanwadu'n gadarnhaol ar arfer eraill.	Mae'r athro'n defnyddio rhinweddau ei arfer proffesiynol personol ei hun i ddylanwadu'n gadarnhaol ar arfer eraill.
Arweinyddiaeth – Arwain adrannau a chyfnodau	Arwain adrannau a chyfnodau	Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol
SAC	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn, ac ar draws, timau a gwerthfawrogiad o gyfraniadau unigolion tuag at wireddu gweledigaeth yr ysgol.	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus .

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL		
Addysgeg – Sicrhau bod y strategaeth a’r seilwaith yn addas at y diben		
Effeithiol iawn	Caiff y strategaeth ei rhannu, ei herio a’i mynegi ar bob lefel ac er mwyn cysoni trefniadau seilwaith â dibenion a deilliannau.	Caiff y strategaeth ei rhannu, ei herio a’i mynegi ar bob lefel er mwyn cysoni trefniadau seilwaith â dibenion a deilliannau.
Addysgeg - Hyrwyddo dulliau addysgol		
Effeithiol iawn	Caiff ystod o ddulliau addysgol o amrywiaeth o ffynonellau eu hystyried yn rheolaidd o ran ei heffeithiolrwydd posibl a’r posibilrwydd y gellid eu defnyddio.	Caiff ystod o ddulliau addysgol o amrywiaeth o ffynonellau eu hystyried yn rheolaidd o ran y posibilrwydd o’u rhoi ar waith yn effeithiol .
Addysgeg – Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu		
Addysgeg – Gosos cyd-destunau bywyd go iawn, dilys		
Effeithiol iawn	Mae arweinwyr effeithiol yn disgwyl ac yn galluogi dysgwyr i ddechrau, ysgogi a myfyrio ar brofiadau dilys ym mhob un o’r pedwar diben.	Mae arweinwyr effeithiol yn disgwyl ac yn galluogi dysgwyr i ddechrau, llywio a myfyrio ar brofiadau dilys ym mhob un o’r pedwar diben.
Addysgeg – Defnyddio themâu trawsgwricwlaidd		
Effeithiol iawn	Mae themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio’n rheolaidd ac mae’r amrywiaeth yn cynnwys dysgu cymhleth sy’n dod i’r amlwg drwy fyfyrion effeithiol ar ddysgu.	Mae arweinwyr yn gwneud cynlluniau i sicrhau bod themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio’n rheolaidd. Mae’r amrywiaeth o themâu’n cynnwys dysgu cymhleth sy’n dod i’r amlwg drwy fyfyrion effeithiol ar ddysgu.
Addysgeg – Derbyn atebolrwydd am ddeilliannau a lles dysgwyr		
Effeithiol iawn	Mae arweinwyr yn hyrwyddo camau i gydweithio ag ysgolion llai llwyddiannus ac yn derbyn	Mae arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio â phob partner, yn enwedig ysgolion, cyfnodau neu adrannau

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
	cyfrifoldeb proffesiynol am helpu eraill i lwyddo a'u galluogi i wneud hynny.	eraill ac yn derbyn cyfrifoldeb proffesiynol am helpu eraill i lwyddo a'u galluogi i wneud hynny.
Cydweithredu – Ymgysylltu â chymuned ehangaf yr ysgol		
Rôl arweinyddol ffurfiol newydd	Caiff cydberthnasau effeithiol ac agored eu meithrin a'u cynnal â rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol ehangaf sy'n rhoi rhan weithredol a chadarnhaol i bartneriaid ym mhrofiadau a chynnydd y dysgwyr.	Caiff cydberthnasau effeithiol ac agored eu meithrin a'u cynnal â rhieni a gofalwyr a'r gymuned leol ehangaf sy'n rhoi rhan weithredol a chadarnhaol i bartneriaid ym mhrofiadau a chynnydd y dysgwyr.
Dysgu proffesiynol – Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol		
Effeithiol iawn	Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithgar yn y gymuned addysg ehangaf gan gynllunio cyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu ar ran athrawon a staff eraill, dysgwyr ac arweinwyr.	Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan weithgar yn y gymuned addysg ehangaf gan gynllunio cyfraniadau at gyfnodolion, cynadleddau neu gymunedau dysgu ar ran pawb yn y gymuned, yn cynnwys dysgwyr.
Dysgu proffesiynol – Helpu eraill i dyfu		
Effeithiol iawn	Mae arweinwyr yn galluogi'r holl staff i gyrraedd y safon uchaf bosibl, gan gydnabod a chyflawni eu potensial mewn cyd-destun dysgu dwyieithog.	Mae arweinwyr yn galluogi'r holl staff i gyrraedd y safon uchaf bosibl, gan gydnabod a chyflawni eu potensial ym mhob cyd-destun dysgu.
Arloesi – Datblygu technegau newydd		
Rôl arweinyddol ffurfiol newydd	Mae rhaglen arloesi strwythuredig, hirdymor sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar waith ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella deilliannau.	Mae rhaglen sefydliadol hirdymor o arloesedd strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar waith er mwyn ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella deilliannau.

Dimensiwn/elfen/lefel	Fersiwn ymgynghori wreiddiol	Fersiwn ddiwygiedig
Arloesi – Ceisio ac ymestyn arfer gorau		
Rôl arweinyddol ffurfiol newydd	Mae arweinwyr yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yr ysgol yn cael eu datblygu'n barhaus a'u rhannu ar draws yr ysgol a thu hwnt.	Mae arweinwyr yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yn cael eu datblygu'n barhaus a'u rhannu o fewn ac ar draws yr ysgol a thu hwnt.
Arweinyddiaeth – Grymuso eraill		
Rôl arweinyddol ffurfiol newydd	Mae'n ystyried profiad cydweithwyr eraill a'r heriau sy'n eu hwynebu ac mae'n eu hannog i ffynnu.	Mae arweinwyr yn ystyried profiad cydweithwyr eraill, yr heriau sy'n eu hwynebu ac maent yn eu hannog i ffynnu.
Arweinyddiaeth – Dirprwyo a grymuso		
Effeithiol iawn	Mae arweinwyr yn grymuso cydweithwyr i ddatblygu gallu pobl eraill, gan eu hannog yn systematig i fyfrio ar eu hymarfer a thechnegau datblygu.	Mae arweinwyr yn grymuso cydweithwyr i ddatblygu galluoedd pobl eraill, gan eu hannog yn systematig i fyfrio ar eu hymarfer a thechnegau datblygu.